national museum wales
amgueddfa cymru

# Adroddiad Ariannol 2008/09

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru

Cyhoeddwyd yn 2009 gan
Amgueddfa Cymru,
Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NP
© Amgueddfa Genedlaethol Cymru

*Cynhyrchu:* Mari Gordon
*Cymraeg*: Meleri MacDonald
*Dylunio:* Andrew Griffiths Design
*Argraffu:* Xpedient

*Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, storio mewn system adfer na throsglwyddo unrhyw ddarn o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf neu trwy unrhyw fodd boed yn drydanol, yn fecanyddol neu fel arall, heb yn gyntaf geisio caniatâd ysgrifenedig Amgueddfa Cymru neu ddeiliad/deiliaid yr hawlfraint, neu fel y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Dylid gyrru unrhyw ymholiadau eraill at yr Adran Gyhoeddiadau, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, CAERDYDD CF10 3NP. Mae pob delwedd yn © Amgueddfa Genedlaethol Cymru os na nodwyd fel arall.*

Mae Adroddiad yma a'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar ein gwefan:
**www.amgueddfacymru.ac.uk**.

*Argraffwyd yr Adroddiad yma ar bapur â Thystysgrif Amgylchedd ISO 14001. Fe'i gwnaed o ffibr pren o goedwigoedd cynaliadwy, yn bydradwy a gellir ei ailgylchu.*

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru

# ADRODDIAD ARIANNOL BWRDD YMDDIRIEDOLWYR AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

## Cefndir statudol

Sefydlwyd 'Amgueddfa Genedlaethol Cymru' (yr Amgueddfa) drwy Siarter Frenhinol ym 1907, ac mae'n parhau i fod wedi'i chofrestru fel corff cyfreithiol ac elusen o dan yr enw hwn (Rhif Elusen 525774, Rhif TAW GB 783 4541 10). Enw cyhoeddus y sefydliad yw 'Amgueddfa Cymru – National Museum Wales.'

Mae'n elusen gofrestredig annibynnol, ac yn cael ei hariannu'n bennaf drwy gymhorthdal grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLC).

Ei hamcan craidd yw *'hyrwyddo addysg y cyhoedd'*. Mae hyn yn golygu datblygu casgliadau cenedlaethol Cymru, gofalu amdanynt, eu hastudio a'i gwneud yn hawdd i bobl eu mwynhau er budd y gymdeithas, a hynny am byth. Mae'r Siarter (a ddiwygiwyd yn 1991 a 2006) yn nodi y dylid cyflawni hyn:

i. yn bennaf, drwy ddarlunio'n llwyr wyddoniaeth, celfyddydau, diwydiannau, hanes a diwylliant Cymru neu sy'n berthnasol i Gymru, ac

ii. yn gyffredinol, drwy gasglu, cofnodi, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau a gwybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, y bwriedir iddynt hyrwyddo gwell dealltwriaeth a hybu ymchwil.

Yn 2006 cafodd yr Amgueddfa Siarter Frenhinol a Statudau Atodol. Newidiodd y Siarter hon drefniadau llywodraethol yr Amgueddfa drwy ddiddymu Llys y Llywodraethwyr. Ymgysylltiad budd-ddeiliaid, serch hynny, yw conglfaen gweledigaeth Amgueddfa Cymru o hyd.

I'r diben hwn, cychwynnodd Cynllun Gweithredol 2008-09 y broses o weithredu'r *Cynllun Ymgynghori a'r Cynllun Gweithredol Perchnogaeth – Gosod y Dinesydd yn y Canol* – strategaeth ymgysylltiad cyhoeddus cost effeithiol a gynlluniwyd i adlewyrchu'r ffaith bod y casgliadau yn cael eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar ran y cyhoedd, i annog budd-ddeiliaid i gyfranogi mewn amrywiaeth o ddulliau ymgynghori, a galluogi cyfranogaeth yn nulliau cynllunio'r amgueddfa ar bob lefel.

Roedd y Cynllun yn gosod gwerthoedd, egwyddorion a thechnegau cyfranogi allweddol a gyfeiriodd prif weithgareddau ymgynghorol Amgueddfa Cymru am y flwyddyn ddiwethaf.

## Nodau ac Amcanion

Mae Amgueddfa Cymru yn ceisio cyflawni, er lles y cyhoedd, yr amcan craidd a nodwyd uchod drwy gyflawni ei nodau a'i blaenoriaethau cyfredol, sef:

- creu amgueddfeydd byw lle mae'r casgliadau'n adrodd eu straeon mewn ffordd gliriach, â'r ymwelwyr yn profi bywyd ddoe a heddiw ac yn archwilio gwahanol bosibiliadau ar gyfer y dyfodol
- datblygu casgliadau llewyrchus sy'n cael eu defnyddio'n dda, sy'n gynaliadwy ac sy'n tyfu
- canfod llwybrau i wneud synnwyr o'r byd gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau sy'n addas ar gyfer gwahanol ddulliau dysgu, er mwyn creu mynediad cyfartal i'r casgliadau
- datblygu fel sefydliad dysgu drwy rannu ein cynlluniau gyda'n hymwelwyr, a chyd-ddatblygu'r ffyrdd yr ydym yn gweithio, er mwyn creu mynediad ystyrlon i'r amrywiaeth o bobloedd sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru ddefnyddio'r casgliadau
- datblygu fel sefydliad dysgu drwy blannu sgiliau dysgu wrth galon ein holl waith
- cyfathrebu ein neges fel y daw Amgueddfa Cymru'n adnabyddus ledled y byd fel canolfan ddysg o safon ryngwladol a darparu gwell mynediad a chodi proffil casgliadau cenedlaethol drwy ein gwaith gyda'n sefydliadau partner
- adeiladu ar ein hadnoddau er mwyn creu sail gadarn a chryf i gyflawni ein Gweledigaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf a'r tu hwnt.

Drwy ddefnyddio'r blaenoriaethau strategol hyn gallwn wireddu ein Gweledigaeth i fod yn 'Amgueddfa Ddysg o safon Ryngwladol', yn ogystal â chefnogi gweledigaeth strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y'i disgrifir yng nghytundeb clymbleidiol 'Cymru'n Un', 2007.

## Trefniadau Llywodraethu – Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwyr

Mae awdurdod gweithredol yr Amgueddfa gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, sy'n gyfrifol am reolaeth a gweinyddiaeth cyllid ac eiddo'r Amgueddfa lle buddsoddir yr holl arian a gyfrannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu a gafwyd o ffynonellau eraill a'r holl diroedd, adeiladau, neu roddion mewn da a ddyfeisiwyd neu a gyflwynwyd at ddiben y sefydliad. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cyfarfod yn rheolaidd, yn gyhoeddus, i gyflawni eu gwaith.

Penodir aelodau Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Elusen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a gan yr Amgueddfa, mewn niferoedd a bennir o fewn y Siarter atodol. Gweithredir egwyddorion penodi agored ar gyfer pob penodiad, yn ôl argymhellion Adolygiad Nolan. Sefydlwyd is-bwyllgor Penodiadau i gynorthwyo a chynghori ar y broses. Mae pob person newydd a benodir yn dilyn rhaglen gyflwyno ac yn derbyn llawlyfr cynhwysfawr yn fuan ar ôl eu penodiad. Nid yw'r Amgueddfa'n talu unrhyw aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwr am ei wasanaeth.

Mae manylion aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr drwy gydol y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn, gan gynnwys y rhai sydd wedi ymddiswyddo, ymddeol ac wedi ymuno, mewn atodiad i'r adroddiad hwn. Cedwir manylion unrhyw gwmnïau y maent yn gyfarwyddwyr arnynt a buddiannau sylweddol eraill mewn Cofrestr Buddiannau sydd ar gael i'r cyhoedd, ac a gedwir yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn dirprwyo awdurdod i amrywiol is-bwyllgorau, yn bennaf y Pwyllgor Adolygu Perfformiad, sydd â chylch gwaith eang i fonitro materion gweithredol; y Pwyllgor Archwilio, sydd â Chadeirydd annibynnol a thri aelod annibynnol arall, gan gynnwys Cynrychiolydd o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r pwyllgorau hyn yn cwrdd bob chwarter. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn penodi Bwrdd yr is-gwmni sy'n cyfarwyddo materion masnachol yr Amgueddfa, ac yn ogystal ag Ymddiriedolwyr Gyfarwyddwyr, penodir Cyfarwyddwyr anweithredol eraill sydd â phrofiad masnachol priodol. Ceir cofrestr o'r aelodau Bwrdd hyn gyda'r adroddiad hwn.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n delio â materion gweithredol bob dydd, ac mae eu manylion hwythau hefyd yn yr adroddiad hwn. Penodir pob aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr drwy gystadleuaeth agored ac fe'u cyflogir o dan Amodau a Thelerau Cyflogaeth safonol yr Amgueddfa, sy'n berthnasol i'r holl staff, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, a benodir dan delerau a gytunwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae trefniadau llywodraethu'r Amgueddfa'n cydymffurfio'n llwyr â'r Cod Llywodraethu ar gyfer y Sector Gwirfoddol a Chymunedol a gyhoeddwyd gan Ganolfan Llywodraethu Genedlaethol Lloegr ac maent wedi'u cymeradwyo'n llwyr gan y Comisiwn Elusennau. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau am fuddiannau cyhoeddus, ac mae adroddiadau llawn am ddarpariaeth buddiannau o'r fath gan yr Amgueddfa, fel a nodir yn ei nodau ac amcanion, yn yr Adroddiad Ariannol hwn.

## Safleoedd Amgueddfa Cymru

Yn ystod 2008/09, roedd yr Amgueddfa yn gweithredu amgueddfeydd mewn saith lleoliad ledled Cymru:

### Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd

Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn unigryw ymysg amgueddfeydd cenedlaethol yn y DG o ran ei ystod o arddangosfeydd celf, archeoleg a gwyddoniaeth. Yn ystod 2008-09 adnewyddwyd nifer o'r orielau celf, a'u hailagor, gan gynnwys oriel yn cynnwys tirluniau Cymreig fel rhan o greu Amgueddfa Gelf Cymru erbyn 2011.

### Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd

Yn un o brif amgueddfeydd awyr agored Ewrop, mae Sain Ffagan yn rhan o grŵp o bedair Amgueddfa Hanes Cymdeithasol a Diwydiannol. Gall ymwelwyr archwilio a mwynhau dros 2,000 o flynyddoedd o hanes mewn dros bedwar deg adeilad a ail-godwyd, a gasglwyd o bob cwr o Gymru.

### Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon, Torfaen

Yng nghalon Safle Treftadaeth y Byd ym Mlaenafon, mae Big Pit yn gyn bwll glo cyflawn. Mae bellach yn cynnig profiad na cheir ei debyg ym Mhrydain, ac unigryw i Gymru. Dan arweiniad cyn-lowyr, mae ymwelwyr yn disgyn dros 90 metr i ddyfnderoedd y pwll, a phrofi tywyllwch llethol amgylchedd gwaith dyddiol y glowyr.

### Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion, Casnewydd

Wedi'i sefydlu gan Fudiad Hynafiaethol Caerllion ym 1850, a'i drosglwyddo i Amgueddfa Cymru ym 1930, mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru wedi bod yn

arddangos casgliad cyfoethog o ddarganfyddiadau Rhufeinig ers dros 150 mlynedd. Maent yn cynnwys cerfluniau, ysgrifau, cerrig beddau, deunyddiau adeiladu, mosaig labrinth, offer milwrol, crochenwaith, gwydr a gemwaith. Saif tref Caerllion ar safle un o'r tri safle lleng parhaol ym Mhrydain Rufeinig.

**Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Gwynedd**
Yma, mae hanes llechi yn ymddangos yng ngweithdai gwreiddiol y chwarel. Yn ogystal â'r ffowndri, gefail, siediau a'r olwyn ddŵr weithredol fwyaf ar dir mawr Prydain, mae crefftwyr yn arddangos eu sgiliau o hollti a thrin llechi â llaw.

**Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin**
Yng nghalon cefn gwlad gorllewin Cymru, mae'r amgueddfa hon yn adrodd hanes y deugain melin a oedd ar un adeg wedi'u clystyru o amgylch Drefach Felindre. Mae Melin Cambrian – yr unig felin i barhau i weithredu'n barhaus ers ei adeiladu – bellach yn gartref i'r Amgueddfa.

**Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe**
Yng nghalon Ardal Forol adfywedig Abertawe, mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau mewn warws cofrestredig glan môr, wedi'i gysylltu gydag adeilad newydd, modern o lechi a gwydr. Roedd agoriad yr Amgueddfa yn Hydref 2005 yn uchafbwynt strategaeth ddeng mlynedd a welodd fuddsoddiad gwerth £40m yn ein pedair amgueddfa ddiwydiannol ledled Cymru.

Hefyd mae Canolfan Gasgliadau Cymru yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, sy'n agored i'r cyhoedd os gwneir apwyntiad. Yn ogystal, ar hyn o bryd mae gennym drefniadau partneriaeth gyda sefydliadau lleol i reoli Amgueddfa Rufeinig Segontium, Caernarfon, Gwynedd, Oriel Tŷ Turner, Penarth, Bro Morgannwg, a gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ar gyfer Oriel y Parc, cyfleuster newydd yn Nhyddewi, Sir Benfro, sy'n cymryd arddangosfeydd o'r casgliadau cenedlaethol.

## Llwyddiannau

Yn ystod 2008-09, dathlodd yr Amgueddfa nifer o lwyddiannau wrth gyflawni ei nodau ac amcanion er lles y cyhoedd ledled ei saith safle. Cafwyd dros 1.5 miliwn ymweliad gyda'r amgueddfeydd cenedlaethol yng Nghymru yn ystod 2008-09 ac, er nad oedd y flwyddyn ariannol yn cynnwys gwyliau'r Pasg, llwyddodd yr Amgueddfa i gyrraedd ei tharged cronnus ar gyfer y deuddeg mis.

Mewn gwirionedd, gwelodd dau o safleoedd yr amgueddfa, Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru ac Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, eu blynyddoedd gorau erioed o ran nifer ymwelwyr. Mae'r Amgueddfa yn priodoli'r llwyddiant hwn i dair prif ffactor:

- poblogrwydd parhaus polisi mynediad am ddim a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn cyfnod o galedi economaidd cyffredinol;
- buddsoddiad yn y strwythur, yn arbennig adnewyddu'r orielau celf yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd; a
- rhaglen gyhoeddus gref yn adeiladu ar lwyddiant blwyddyn Canmlwyddiant yr Amgueddfa yn 2007

Ymysg uchafbwyntiau eraill y flwyddyn roedd:

- Cynnal arddangosfa celfyddyd gyfoes rhyngwladol *Artes Mundi 3* a gefnogwyd gan raglen o gyfleoedd dysgu ar gyfer addysg ffurfiol a grwpiau teuluol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Denodd yr arddangosfa gyfanswm o 43,392 ymweliad.
- Cwblhau'r Project Gofal a Mynediad Casgliadau a'r Project Cadwraeth Hanfodol yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, gan sicrhau bod y casgliadau cenedlaethol yn cael eu cadw mewn gofod sy'n cyrraedd safonau gofal rhyngwladol.
- Agor Anecs Dysgu Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru fel rhan o ddathliadau 25 mlwyddiant Big Pit gyda'r nod o wella ac ymestyn yr ystod o brofiadau dysgu sydd ar gynnig ar gyfer ymwelwyr, a chanolbwyntio'n arbennig ar gynulleidfaoedd sydd wedi'u tangynrychioli, megis grwpiau cymunedol.
- Gweithio gyda'r American Federation of Arts i drefnu a hyrwyddo taith o waith celf i'r UDA yn 2009 a 2010. Bydd yr arddangosfa, *O Turner i Cézanne: Campweithiau Celf o Gasgliad Davies Amgueddfa Cymru* yn teithio i bum lleoliad gan gynnwys Amgueddfa Gelf Colombia, Amgueddfa Gelf Oklahoma, Everson Museum of Art Syracuse, Efrog Newydd, Oriel Gelf Corcoran, Washington DC ac Amgueddfa Albuquerque, New Mexico. Mae'r arddangosfa yn cynnwys 58 peintiad olew a dyfrlliw, rhai heb eu gweld yn yr UDA erioed.
- Gweithredu'r strwythurau rheoli project a datblygu cysyniadau ar gyfer ailddatblygu Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru dros y ddegawd nesaf.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae gwaith Amgueddfa Cymru yn aml, ac yn gynyddol, wedi'i nodweddu gan weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill. Yn y flwyddyn ddiwethaf bu hyn nid yn unig o fewn Cymru a'r DU, ond hefyd yn rhyngwladol ar raddfa llawer mwy na'r gorffennol.

Roedd y brif arddangosfa deithiol, *O Turner i Cézanne: Campweithiau Celf o Gasgliad Davies Amgueddfa Cymru*, a drefnwyd mewn cydweithrediad gyda'r American Foundation for the Arts, yn cynnwys nifer o staff yn y tasgau pwysig o baratoi, pacio, cludo a chyflwyno ar gyfer y lleoliad cyntaf o bump, Amgueddfa Gelf Columbia, De Carolina, ar gyfer agoriad swyddogol ar 5 Mawrth 2009.

Roedd y ddau gynllun i greu arddangosfeydd yn cynnwys y casgliadau cenedlaethol mewn lleoliadau bach ledled Cymru – *Cyfoeth Cymru Gyfan a Celf Cymru Gyfan* – mewn cyfnod o gynllunio ar gyfer rownd nesaf y projectau o 2009 ymlaen. Roedd hefyd yn flwyddyn o ymchwil a datblygu 'tu ôl i'r llen' ar gyfer tri phroject *Cyfoeth Cymru Gyfan* yn y Rhyl, y Fenni a Chas-gwent, a fydd yn agor i'r cyhoedd yn 2009-10.

Parhaodd *Deinosoriaid yn Eich Gardd* i deithio, gan gael ei ddangos ym Maenordy Scolton yn Sir Benfro ac yn Amgueddfa Ceredigion.

Bu buddsoddiad sylweddol gan staff yng ngosodiad terfynol a rhaglen agoriadol Oriel y Parc yn Nhŷ Ddewi. Yn gweithio'n agos gyda Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, agorwyd y ganolfan yn Nhŷ Ddewi gan Brif Weinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 14 Tachwedd 2008.

Hefyd cafwyd cyfraniadau sylweddol gan staff Amgueddfa Cymru i ddatblygiad cynnwys, adnoddau dysgu a gweithgaredd hyrwyddo fel prif bartner yn y rhith broject Casgliad y Bobl.

Ategwyd y bartneriaeth sefydlog gyda Cadw i ddehongli'r safleoedd ac Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion eleni gan broject gyda Choleg Prifysgol Llundain ar fynediad a chyfranogaeth gyhoeddus mewn 'cloddfa' ar safle yn y pentref a gweithgaredd ymgynghorol mewn cydweithrediad gyda mudiadau Cydraddoldeb Hil yng Ngwent a Chasnewydd.

Wrth ochr amrywiaeth o bartneriaethau a chydweithio gydag aelodau mudiadau cymunedau lleiafrifol, project amlwg oedd y gwaith gyda Phwyllgor Puja Cymru a arweiniodd at grefftwyr arbenigol o India yn dod i Sain Ffagan i greu ffigurau gŵyl traddodiadol ar gyfer y gymuned Hindŵaidd, mewn gweithdai ar gyfer ymwelwyr a chyfranogwyr mewn digwyddiadau yn Oriel 1 yn Sain Ffagan.

Arweiniodd partneriaethau gyda Sefydliadau Addysg Uwch at ystod o fentrau cyhoeddus newydd. Dau enghraifft yw: arddangosfa newydd *Newid Hinsawdd – Beth sy'n Digwydd?*, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad gyda Phrifysgol Morgannwg a Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac a ddechreuodd ei gyflwyniad teithiol mewn safleoedd Amgueddfa Cymru a lleoliadau cymunedol bychain, yn arbennig y rhai mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf; a'r bartneriaeth lwyddiannus gyda Choleg Sir Gâr yn arwain at gyflwyniad gan fyfyrwyr ffasiwn yn Amgueddfa Wlân Cymru.

## Fformat y Cyfrifon

Caiff y cyfrifon eu paratoi o dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 ar ffurf a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Mae copi o'r Gyfeireb Cyfrifon ar gael oddi wrth Gyfarwyddwr Cyllid yr Amgueddfa. Mae cyfrifon yr Amgueddfa yn cydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP 2005) 'Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau'.

Wedi'u hymgorffori i'r ffigurau cyfunol mae canlyniadau masnachu'r is-gwmni sy'n llwyr eiddo i'r Amgueddfa sef, Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf. Y cwmni hwn sy'n gweithredu holl weithgareddau masnachu'r Amgueddfa. Hefyd wedi'u cynnwys o fewn ffigurau'r Amgueddfa mae ei chyfran o 50% o Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe Cyf., menter ar y cyd gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe, gyda'i brif bwrpas o ddatblygu'r amgueddfa newydd yn Abertawe.

## Canlyniadau Ariannol y Flwyddyn

Daeth gwerth £1,135,000 o adnoddau cyfunol net i mewn i'r Amgueddfa cyn costau enwol (£3,705,000 yn 2007-08). Daeth cyfanswm o £29,864,000 o adnoddau i mewn i'r Amgueddfa (£30,633,000 yn 2007-08) a gwariwyd cyfanswm o £28,607,000 (£26,802,000 yn 2007-08).
Y gostyngiad net mewn cyllid ar gyfer y flwyddyn ar ôl cymryd yr holl enillion a cholledion wedi, a heb eu gwireddu i ystyriaeth oedd £18,518,000 (cynnydd o £11,135,000 yn 2007-08). £85,288,000 oedd balans y gronfa ar 31 Mawrth 2008 (£103,806,000 ar 31 Mawrth 2008). Cofnododd Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol

Cymru Cyf. elw o £410,000 cyn cymorth rhoddion i'r Amgueddfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2008-09 (£308,000 yn 2007-08).

## Rheoli Risg

Mae Bwrdd, Pwyllgorau a Chyfarwyddwyr yr Amgueddfa yn ystyried y prif beryglon strategol, busnes a gweithredol y mae'r Amgueddfa'n ei wynebu yn gyson, ac maent wedi sefydlu Gweithgor Rheoli Risg er mwyn sicrhau bod peryglon yn cael eu hadolygu a'u hadrodd ar draws y sefydliad i gyd, a bod mesurau lliniaru cadarnhaol perthnasol yn eu lle. Mae'r systemau hyn wedi bod yn eu lle ers nifer o flynyddoedd ac maent yn parhau i fod yn hollol weithredol yn unol â'r arferion gorau. Mae'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio yn goruchwylio gwaith y Gweithgor Rheoli Risg, a byddant hefyd yn cyfeirio materion at y Gweithgor Rheoli Risg i'w hasesu a'u gweithredu fel sy'n briodol. Hefyd, adolygir pob perygl yn flynyddol fel rhan annatod o'r broses gynllunio gweithredol, gan ysgogi asesiad anghenion yr archwiliad mewnol ac felly'r cynllun archwilio mewnol. Mae'r archwilwyr mewnol yn mynychu cyfarfodydd y Gweithgor Rheoli Risg.

Effeithiodd dau newid sylweddol ar y Gofrestr Risg yn ystod y flwyddyn. Yn gyntaf, cyflwynwyd system 'goleuadau traffig' o dynnu sylw at newidiadau yn y peryglon a gofnodwyd, gan wella adnabyddiaeth weledol o gynydd a lleihad mewn difrifoldeb risg. Yn ail, ychwanegwyd nifer o beryglon newydd i'r Gofrestr, neu gwnaed newidiadau asesiad i beryglon cyfredol, i adlewyrchu amodau economaidd cyfredol, ac yn arbennig eu heffaith ar argaeledd arian cyhoeddus.

Yn dilyn y cyngor a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru nad oedd yn bosibl rhoi cadarnhad i'r Amgueddfa o lefel cymhorthdal grant ar gyfer 2010-11, cychwynnwyd ystyriaeth ar baratoi cynlluniau wrth gefn i ostwng lefel gwariant yr Amgueddfa yn y flwyddyn honno, a'r gostyngiad yn lefel y gwasanaethau a ddarparir gan yr Amgueddfa, a all fod yn gysylltiedig.

## Dangosyddion Perfformiad

Fel 'mudiad dysg' mae'r Amgueddfa yn parhau i ymrwymo i fonitro a gwerthuso ein gwaith mewn ffyrdd meintiol ac ansoddol. Tra bod ein dangosyddion perfformiad meintiol allweddol yn dangos darlun o berfformiad, mae data ansoddol o astudiaethau achos ayyb yn parhau i ddarparu golwg fanylach a chyfle i edrych ar ein gwaith a'i gyfoethogi. Yn ystod 2008-09, parhawyd i weithio ar ddatblygiad fframwaith werthuso newydd ar gyfer yr Amgueddfa drwy gynllun gweithredu a gytunwyd, ac yn dilyn hyn byddwn yn creu a gweithredu 'Canllaw Gwerthuso' ledled y mudiad.

Cyfanswm yr ymweliadau gyda'n safleoedd yn ystod 2008-09 oedd 1,524,806, yn erbyn targed o 1,500,000. Mae'r cwymp mewn nifer ymwelwyr o 1,672,677 yn 2007-08 yn adlewyrchu'r ffaith na syrthiodd unrhyw gyfnod gwyliau'r Pasg o fewn blwyddyn ariannol 2008-09, a'r apêl arbennig a gynhyrchwyd yn ystod 2007-08 gan ddathliadau'r canmlwyddiant. Adlewyrchwyd y gwymp ddisgwyliedig mewn niferoedd ymwelwyr yn y targed ar gyfer 2008-09 ac felly roedd yn bleser curo'r ffigwr targed hwnnw.

Cyflwynwyd gwell system o gofnodi data mwy ystyriol o ran ymweliadau gyda'r wefan yn 2008-09 sy'n dileu tua 34% o'r traffig a gynhyrchwyd gan raglenni awtomatig megis robotiaid chwilota a rhaglenni sbamio sy'n treillio'r rhyngrwyd yn awtomatig ac nad ydynt yn ymweliadau 'real'. Gostyngwyd y targed gwreiddiol felly ar gyfer 2008-09 o 34% i 1,000,000 i adlewyrchu hyn. Y nifer o ymweliadau gyda gwefan yr Amgueddfa yn ystod 2008-09, gan ddefnyddio'r gwell arddull cofnodi, oedd 1,180,774, gan ddangos i ba raddau mae ymwelwyr yn dewis cyrraedd at wybodaeth am ein gwaith o fewn y 'rhith' fyd.

Mae ein gwaith ar wasanaethu'r sector addysg ffurfiol yn parhau i ffynnu gyda 238,644 ymweliad addysg ffurfiol yn curo'r targed o 229,000 ymweliad. Y nifer o ymweliadau addysg anffurfiol oedd 270,231 gan guro targed o 170,000. Hefyd roedd 30,591 o gyfranogwyr mewn gweithgareddau addysgiadol dan arweiniad Amgueddfa Cymru a oedd yn digwydd oddi ar ein safleoedd amgueddfa ein hunain, gan guro'r targed o 30,000.

Wrth i ni ddogfennu ein holl gasgliadau yn ôl canllawiau'r Ymddiriedolaeth Casgliadau, rydym wedi dal ati i osod yr holl gofnodion am gasgliadau ar gyfrifiadur, gyda'r nod o sicrhau lefelau derbyniol o gofnodion cyfrifiadurol ar gyfer y gwrthrychau yng nghasgliadau'r Amgueddfa. Yn ystod 2008-09, ac ar sail casgliad o 4,700,000 o eitemau, fe lwyddwyd i greu cofnodion cyfrifiadurol ar lefel rhestr eiddo, sy'n ein galluogi i adnabod eitem yn gywir ac yn gyflym a nodi ei leoliad, ar gyfer 55% o'r casgliadau. Llwyddwyd i greu cofnodion lefel catalog, sy'n cynnwys data academaidd a chyfeirnodau cyhoeddiadau, ar gyfer 30.6% o'r casgliadau. Er bod y cyntaf ychydig yn is na'r targed o 56% a osodwyd ar gyfer y flwyddyn yn sgil

ymadawiad aelod allweddol o staff yn ystod y flwyddyn, llwyddodd yr ail i guro'r targed o 30% ac mae'n arwydd o'r cynnydd cyson sy'n parhau i ddigwydd yn y maes hwn.

Roedd y 143 o brojectau ymchwil yn ystod y flwyddyn yn uwch na'r targed o 126, gan ddangos cryfder parhaus gwaith yr Amgueddfa wrth ledaenu'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r casgliadau. Benthycwyd i 320 o leoliadau, gan guro'r targed o 310.

## Buddsoddiadau Cyfalaf

Fel sail i gyflawni Gweledigaeth yr Amgueddfa, mae rhaglen sylweddol o waith cyfalaf yn parhau, ac mae'r rhaglen cynllunio cyfalaf yn canolbwyntio ar ailddiffinio ein dau safle Amgueddfa fwyaf poblogaidd o ran ymwelwyr, Sain Ffagan fel Amgueddfa Hanes Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays a fydd yn esblygu yn ddwy amgueddfa gysylltiedig, Amgueddfa Hanes Natur Cymru ac Amgueddfa Gelf Cymru.

Canolbwyntiodd y gwaith cynnar yn y maes hwn ar sicrhau bod y casgliadau yn cael eu storio yn briodol. Yna cefnogwyd hyn drwy edrych ar y gwaith cynnal a chadw sylweddol a fydd, pan fydd wedi'i gwblhau'n llawn, yn sicrhau bod yr Amgueddfeydd yn ddiogel rhag bob tywydd, gyda gwell gofod cyhoeddus, ac yna bydd y casgliadau parhaol yn cael eu hail arddangos yn y safleoedd hyn.

Ymysg y projectau cychwynnol o fewn y Prif Gynllun:

*Project Gofal a Mynediad at y Casgliadau*
Y prif ddatblygiad yn ystod y flwyddyn oedd cwblhau'r gwaith i drawsnewid dwy storfa serameg yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i greu storfa arbenigol ar gyfer gweithiau Celf mwy. Dyma elfen derfynol y Project Gofal a Mynediad Casgliadau.

*Rhaglen Buddsoddiad Cyfalaf Cynnal a Chadw Ystad*
Yn ystod 2008-09, buddsoddodd yr Amgueddfa £1.2m i wella'i ystad, gan gynnwys gwaith i gwblhau'r gwaith Cynnal a Chadw Hanfodol a nodwyd yn gynt, gan ganolbwyntio'n arbennig ar do Adain Ddwyreiniol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gan adnewyddu offer monitro amgylcheddol a oedd yn wallus, gwella mynediad i'r anabl a darnau bach eraill o waith.

*Adnewyddu Oriel Adain Orllewinol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd*
Mae'r Amgueddfa wedi datblygu cynlluniau i drawsnewid gofod orielau a ddefnyddiwyd yn flaenorol i arddangos archeoleg, er mwyn arddangos celfyddyd gyfoes a modern. I baratoi ar gyfer y gwaith, cliriwyd yr ardal ac fe gomisiynwyd gwaith cynllunio i adnewyddu to'r Adain Orllewinol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

## Gwerthuso Asedau Sefydlog

Yn unol â pholisïau cyfrifo'r Amgueddfa, cafodd asedau a adbrisiwyd yn broffesiynol ddiwethaf ar 31 Mawrth 2006, eu hadbrisio gan ddefnyddio'r mynegai, er mwyn darparu amcan werthusiad yn hytrach na defnyddio arian elusennol ar adbrisiadau blynyddol. Yn anarferol, mae hyn wedi arwain at gwymp yng ngwerth asedau sefydlog ar 31 Mawrth 2009. Bydd defnydd o'r mynegai yn parhau nes yr adbrisiad proffesiynol nesaf ymhen 2 flynedd, pan fydd addasiadau i'r gwerthusiadau.

Yr unig asedau na chafodd ei hadbrisio yn ôl y mynegai oedd yr asedau TG, oherwydd y gostyngiad Cyffredinol mewn prisiau asedau TG dros amser, a'r asedau treftadaeth. Nid yw'r asedau treftadaeth a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 wedi eu cyfalafu, ac mae asedau treftadaeth ers y dyddiad hwnnw wedi cael eu cofnodi ar bris cost. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn credu bod modd cyfiawnhau costau sylweddol prisio casgliad mor fawr o asedau treftadaeth, ar sail budd yn erbyn cost, i dderbyn yr hyn a fyddai'n ddim mwy na phris ar un foment benodol mewn amser.

## Caffael Sbesimenau

Mae'r Amgueddfa'n parhau i ychwanegu'n ddethol at ei chasgliadau er bod chwyddiant parhaus yn y farchnad celf a henebion yn parhau i erydu gwerth ein cronfa caffael sbesimenau disymud. Fodd bynnag, gyda chymorth cefnogwyr a chyrff dyfarnu grantiau, roedd ambell bryniant mawr yn bosibl. Roedd croeso arbennig i gyfraniadau cefnogwyr tymor hir, Ymddiriedolaeth Derek Williams a'r Gronfa Gelf. Ymysg yr eitemau sylweddol a brynwyd:

- Tafluniad gan James Turrell, *Raethro Pink*, 1968. Dyma unig dafluniad yr artist mewn casgliad cyhoeddus Prydeinig, ac mae'n ychwanegiad sylweddol at y corff cynyddol o gelf gyfoes rhyngwladol yn Amgueddfa Cymru. Ariannwyd y pwrcas am £204,000 gan Ymddiriedolaeth Derek Williams, Ymddiriedolaeth Billstone a'r Gronfa Gelf.

- Gosodiad DVD 4 sgrin gan yr artist o'r Ffindir, Eija-Lisa Ahtila, *Awr Gweddi*, 2005, yr artist buddugol yn arddangosfa *Artes Mundi 2* yn 2006. Bydd yn ddarn allweddol yn ein casgliad o

waith drwy gyfrwng lens. Cefnogwyd y pryniant am £87,000 gan grantiau gan Ymddiriedolaeth Derek Williams a'r Gronfa Gelf.

- Betty Woodman, *Diptych: y Balconi*, 2007. Mae'r gwaith yn cynnwys dau lestr silindrog, y ddau wedi'u gosod ar gefndir fflat, fel plac a dorrwyd o ffurfiau mwy. Cafwyd am £26,000 gyda chymorth Ymddiriedolaeth Derek Williams a'r Gronfa Gelf.

- Prynwyd *Plen Cesar* gan Frank Bowling, acrylig ar gynfas, am £13,000 gyda chymorth Ymddiriedolaeth Derek Williams.

- *Dathliad Dydd Gŵyl Dewi*, peintiad olew gan artist anhysbys, tua 1750, yn dangos Cymro yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Prynwyd am £48,000, ac ymddengys mai dyma'r ddelwedd gynharaf y gwyddom amdani o Gymro yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

- Casgliad o beintiadau a gwrthrychau o Nannau, Meirionnydd, yn costio £58,000.

Hefyd cafwyd dau bryniant sylweddol gan yr Adran Archeoleg a Niwmismateg, sef:

- Tancard pren ac efydd cyflawn o ddyddiad diwedd yr Oes Haearn/Rhufeinig- Brydeinig a ganfuwyd gan aelod o'r cyhoedd yn chwilio am fetel ger Langstone, Casnewydd fis Rhagfyr 2007, ac a gafwyd am £16,000.

- Celc Llanfaches, yn cynnwys 599 denarii arian yr Ymerodraeth Rufeinig a darnau o lestr crochenwaith a gladdwyd tua 160 OC, prynwyd fel trysor gan ddefnyddio £16,000 o gymynrodd Alun Oldfield Davies.

Prynodd yr Adran Bioamrywiaeth a Bioleg Systematig am £11,000 y Casgliad Villaume Mollusca o'r Môr Coch Eifftaidd: mae'r casgliad hwn o gregyn yn cynnwys 747 o sbesimenau a 16,429 o sbesimenau bas data, a tua 5,000 heb fod ar fas data. Mae'r casgliad yn ategu ein casgliadau cyfredol o'r rhanbarth honno gan gynnwys y rhai yn y casgliad Melvill Tomlin hanesyddol, sydd eisoes yn cael eu cadw yma.

Mae caffaeliadau pwysig eraill yn parhau i gael eu gwneud drwy gyfraniad, gymynrodd a gwaith maes. Yn eu plith:

- Cyfres o fwynau gogledd Cymru gan John Mason yn cynnwys deunydd o bwysigrwydd gwyddonol o safleoedd naill ai heb eu cynrychioli, neu wedi'u tan-gynrychioli yn ein casgliad daeareg presennol.

- Cafwyd casgliad sylweddol o eitemau cyfraith a threfn gan Heddlu Gwent.

Ceir manylion am yr holl asedau treftadaeth unigol gwerth dros £5,000 a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 10 y cyfrifon.

## Codi arian a gwirfoddolwyr

Er gwaethaf yr hinsawdd economaidd anodd a oedd yn effeithio ar lwyddiant ein gweithgareddau codi arian, roedd cyfanswm yr incwm a gafodd Adran Ddatblygu'r Amgueddfa eleni yn £352k, o amryw o ffynonellau cyhoeddus, ymddiriedolaethau a sefydliadau, cwmnïau ac unigolion. At hynny, cafwyd £660k o addewidion. Nid yw'r ffigurau hyn yn adlewyrchu ymrwymiadau tymor hirach, megis nifer o gymynroddion sylweddol, a gafwyd yn dilyn lansiad yr Ymgyrch Cymynroddion.

Y prif ffocws ar gyfer yr Adran yn ystod ail hanner y flwyddyn oedd adnewyddu'r Adain Orllewinol Uchaf fel camau terfynol creu Amgueddfa Gelf Cymru, gyda cheisiadau'n cael eu cyflwyno i Ymddiriedolaethau a Sefydliadau sylweddol, yr ydym yn disgwyl am eu canlyniadau. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau gyda chymuned Cymry Llundain, gan gynnwys un yn yr Oriel Genedlaethol, yn gysylltiedig gydag arddangosfa *Sisley yng Nghymru a Lloegr*, ac un yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Mae'r y Bwrdd Datblygu, sy'n cynnwys unigolion sydd wedi cytuno'n garedig i gynorthwyo'r Amgueddfa i godi arian ar gyfer ei phrif brojectau, yn parhau i fod yn weithgar. Eleni maent wedi canolbwyntio ar y project Adain Orllewinol ac wedi cyfranogi mewn nifer o'r gweithgareddau cysylltiedig.

Mae aelodaeth o'r Cynllun Noddwyr yn parhau i dyfu, ac mae'r grŵp dylanwadol a brwdfrydig hwn o gefnogwyr nid yn unig yn darparu cefnogaeth ariannol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr, ond hefyd yn gweithredu fel eiriolwyr lefel uchel ar ran yr Amgueddfa.

Parhaodd Cyfeillion yr Amgueddfa i gefnogi ein gwaith mewn tair prif ffordd. Yn gyntaf, fel llysgenhadon dros waith yr Amgueddfa, gan ddarparu rhaglen o sgyrsiau, teithiau a gweithgareddau eraill sy'n ategu gweithgareddau addysgol yr Amgueddfa ei hun.

Yn ail, mae'r Cyfeillion yn darparu grŵp o wirfoddolwyr i gefnogi gweithgareddau'r

Amgueddfa. Mae Cyfeillion yn cyfarfod a chyfarch grwpiau ac unigolion, fel grwpiau Cyfeillion amgueddfeydd eraill, ymwelwyr achlysurol sydd â diddordeb a hefyd yn cynorthwyo staff curadurol ledled sbectrwm gweithgareddau'r Amgueddfa. Mae'n bwysig nodi bod yr Amgueddfa'n gweld hyn fel ychwanegiad gwerthfawr yn hytrach na gwirfoddolwyr yn cyflawni ein gwaith craidd. Cawsom gyfanswm o 204 awr o bresenoldeb gan y Cyfeillion fel gwirfoddolwyr.

Yn drydydd, mae'r Cyfeillion hefyd yn rhoi cymorth ariannol i nifer o brojectau, ac eleni cyfrannwyd yn hael tuag at ail arddangos rhan o'r casgliad arian, gwella cyfleusterau addysgiadol yn Amgueddfa Lechi Cymru, darparu llwybrau addysg yn nifer o'n safleoedd, a chefnogi'r datganiadau organ cyson yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Er mwyn datblygu cyfleoedd gwirfoddoli, penododd yr Amgueddfa gydlynydd gwirfoddoli yn 2008-09 ac rydym yn rhagweld y bydd y swydd newydd hon yn dod yn ganolbwynt ar gyfer ehangu'r cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli yn ystod y blynyddoedd i ddod.

## Perfformiad Taliad Prydlon

Mae'r Amgueddfa'n cefnogi amcanion cod ymarfer *Better Payment* Trysorlys ei Mawrhydi a'i nod yw talu anfonebau dilys o fewn 30 diwrnod. Chwe diwrnod oedd y cyfnod cyfartalog ar gyfer talu anfonebau yn 2008-09 (8 diwrnod yn 2007-08), sy'n cynnwys 98% (yn ôl nifer) o anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (98% yn 2007-08). Ni wnaed taliad llog dan Ddeddf Taliadau Hwyr o Ddyledion Masnachol (Llog) 1998 (£Dim yn 2007-08).

## Cynaliadwyedd

Yn ystod 2008-09, parhaodd yr Amgueddfa i ddatblygu gweithdrefnau a dulliau cyfathrebu a ehangodd gynaladwyedd ein gweithredoedd dyddiol, yn ogystal â dealltwriaeth ein hymwelwyr o faterion perthnasol i effaith newid hinsawdd a'r bygythiad i fioamrywiaeth leol a byd-eang.

Mae pob un o safleoedd yr Amgueddfa bellach wedi cyflawni statws Achrediad Lefel 3 o fewn Cynllun Achrediad Amgylcheddol 'Draig Werdd'.

Defnyddiodd yr Amgueddfa ei phartneriaeth ffurfiol gyda'r Ymddiriedolaeth Carbon i'n cynorthwyo i ostwng cyfanswm ôl troed carbon y sefydliad. Darparwyd adroddiadau ymgynghorol gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer bob un o'n safleoedd a buddsoddwyd £205k mewn gwaith Cyfalaf er mwyn gostwng ein defnydd o ynni.

## Y Polisi ar Gronfeydd Cadw

Fel corff sy'n casglu a chynnal casgliadau er mwyn cyflawni ei nodau ac amcanion, mae'r polisi ar gronfeydd cadw a nodir yma yn berthnasol i gronfeydd arian i'w wario yn unig, ac nid i'r cyfanswm arian a ddelir.

Mae'r polisi hwn yn parhau i fod yn ddibynnol ar, ac wedi'i gyfyngu gan, yr awdurdod a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Natganiad Rheoli a Memorandwm Cyllid yr Amgueddfa a oedd yn cyfyngu'r cronfeydd cadw ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2008-09 i 2% o'i chymhorthdal grant, gydag eithriadau rhag unrhyw gyfyngiad o ran Grant Prynu Sbesimenau ac incwm hunan-gynhyrchiol. Gall eithriadau pellach fod ar gael ar gais o ran Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (i adlewyrchu'r trefniant cyd-ariannu gyda Dinas a Sir Abertawe), a phrojectau cyfalaf sy'n pontio dros ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r Amgueddfa yn anfodlon gyda gosod y cyfyngiadau cario drosodd blynyddol hyn o fewn CNLC gan y credir y gall rwystro rheolaeth ariannol ofalus ac annog gwariant mewn blwyddyn er mwyn lleihau balans ariannol y gellid eu buddsoddi o bosib ar ôl y rhwystr artiffisial a grëwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r cyfyngiadau ar gario arian cymhorthdal grant blynyddol drosodd hefyd yn gynyddol niweidiol i gynllunio cyllideb ar adeg pan fo arian cyhoeddus yn debygol o gyfyngu'n sylweddol am nifer o flynyddoedd i ddod. Roedd yr Amgueddfa'n ymwybodol o gyfyngiadau i'w ddyraniad cymhorthdal grant ar gyfer 2009-10 ac fe gynlluniwyd yn briodol i fwyhau'r arian a gludwyd drosodd, o fewn cyfyngiadau'r Cynulliad, ar ddiwedd 2008-09. Cyflawnwyd hyn yn llwyddiannus drwy gadw arbedion cyllideb o fewn y flwyddyn yn naturiol gan alluogi'r Amgueddfa i esmwytho effaith diffygion cyllideb a chynorthwyo gyda pharhad y gwasanaeth.

Cynhelir cronfeydd preifat ar wahân ac fe'u nodir yn y cyfrifon. Nid oes unrhyw derfyn ar gludo'r rhain ymlaen, a pholisi'r Amgueddfa yw adeiladu'r cronfeydd hyn a'u defnyddio ar brojectau a chynlluniau cyfalaf nad ydynt yn derbyn cyllid craidd na chymhorthdal grant, gan gadw oddi mewn i gyfyngiadau ar ddefnydd o fewn Cronfeydd Preifat.

Caiff elw'r is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo i'r Amgueddfa, sef Mentrau AOCC Cyfyngedig, ei

ddefnyddio i ddarparu cyllid ychwanegol tuag at nodau ac amcanion yr Amgueddfa. Ar adegau gall hyn olygu ail-fuddsoddi elw yn yr is-gwmni masnachu er mwyn gwella'r canlyniadau masnachol ymhellach. Bydd y trefniadau i drosglwyddo'r elw i'r Amgueddfa hefyd yn rhoi sylw priodol i gadw goblygiadau treth y gwaith masnachu mor isel â phosibl.

Er gwaethaf yr ansicrwydd cyfredol o ran dyraniadau cymhorthdal grant yn y dyfodol a'r amgylchedd economaidd anodd ar gyfer codi arian o ffynonellau preifat, mae'r Amgueddfa yn dymuno parhau ar gynllun tymor hir o ddatblygu cyfalaf ac adnewyddu. Er mwyn cyfrannu at y datblygiadau hyn, a rheoli cyllidebau yn briodol, mae'n hanfodol cadw'r hyblygrwydd mwyaf posibl wrth gadw cronfeydd, ar ffurf cludo arian ymlaen a chadw elw masnachol.

Cyfanswm Cronfeydd yr Amgueddfa ar 31 Mawrth 2009 oedd £85,288,000. Ceir dadansoddiad yn y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon Ariannol.

## Polisi a Pherfformiad y Buddsoddiadau

Rheolir buddsoddiadau cronfeydd preifat yr Amgueddfa gan yr ymgynghorwyr, Barclays Wealth. Mae polisi buddsoddi'r Amgueddfa'n derbyn cyfnewidioldeb tymor byr wrth geisio dilyn enillion buddsoddi cadarnhaol yn dilyn effeithiau chwyddiant, ac yn cydnabod y gall gwerth cyfalaf newid yn sylweddol o bryd i'w gilydd. Hefyd, mae elfen sylweddol yn cael ei chadw mewn cyfrifon arian parod, i fod ar gael i'w fuddsoddi yn rhaglen gyfalaf yr Amgueddfa. Caiff perfformiad y cronfeydd hyn ei adolygu'n gyson, gyda newidiadau i'r portffolio fel sy'n briodol i'r risg. Syrthiodd gwerth y portffolio yn ystod y flwyddyn o £1,848k i £1,393k yn erbyn cefndir y dirwasgiad byd-eang.

Hefyd cadwodd yr Amgueddfa, drwy gymynroddion, buddsoddiad ecwiti mewn unarddeg cwmni da. Syrthiodd gwerth y portffolio hwn hefyd yn ystod y flwyddyn o £83k i £44k.

## Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae gan yr Amgueddfa gynllun pensiwn â buddion diffiniedig sydd ar gael i'r holl staff parhaol. Yn yr un ffordd â'r mwyafrif helaeth o gynlluniau o'r fath, mae gwerthusiad blynyddol ar gyfer y cyfrifon statudol wedi dangos diffyg asedau o'i gymharu â rhwymedigaethau'r cynllun. Eleni, fodd bynnag, effeithiwyd yn sylweddol er gwaeth ar y Cynllun gan y cwymp byd-eang mewn gwerth ecwiti ac er gwaethaf buddsoddiad sylweddol yn y cynllun, syrthiodd gwerth yr asedau o £65.195m i £48.718m. Mae hyn wedi achosi i ddiffyg y Cynllun ar 31 Mawrth 2009 godi i £23.474m o'i gymharu gyda'r diffyg cychwynnol o £11.754m. Mae hyn yn cael ei gyfrifo drwy gymharu gwerth cyfredol asedau'r Cynllun gyda'r rhwymedigaethau posibl. Fodd bynnag, mae'n arwyddocaol iawn nodi bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi Gwarant y Goron ar 21 Mehefin 2006 mewn perthynas â 'phob swm sydd ei angen i sicrhau bod asedau'r cynllun yn ddigonol i dalu ei holl rwymedigaethau'.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Amgueddfa wedi cymryd gwahanol gamau i fynd i'r afael â'r diffyg, gan gynnwys cynnydd o 4.5% yng nghyfraniadau'r cyflogwr i'r 21.3% cyfredol, a chafwyd hwb ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd gwerthusiad actiwariaidd llawn yn digwydd ar 31 Mawrth 2009, a bydd angen i'r Amgueddfa ac Ymddiriedolwyr y Cynllun gytuno ar y camau nesaf i wynebu'r hyn a fydd yn anochel yn ddiffyg sylweddol dros gyfnod derbyniol, ond hwy, o amser, gan ystyried Gwarant y Goron. Yn y cyfamser, bydd yr Amgueddfa yn parhau i ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru am gymorth ariannol i'r Cynllun, a bydd hefyd yn parhau i wneud cyfraniadau ariannol pellach o'r tu mewn i'w adnoddau ei hun os ydynt yn dod ar gael.

Ceir manylion pellach am y ffordd o gyfrifo costau pensiwn yn y nodyn polisi cyfrifo gyda'r cyfrifon. Mae gofynion datgelu Safon 17 Adroddiadau Ariannol yn nodyn 16 i'r Datganiadau Ariannol.

## Datblygiadau at y dyfodol

Yn ystod 2008-09 datblygwyd y projectau canlynol:

i. Cwblhau'r gwaith cynnal a chadw hanfodol i edrych ar y gwaith cynnal a chadw sylweddol sy'n crynhoi yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru.

ii. Ehangodd Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro Ganolfan Ymwelwyr Tŷ Ddewi i fod yn ganolfan amgylcheddol, dan yr enw Oriel y Parc, a fydd yn gartref i gasgliad Graham Sutherland sydd wedi'i adael mewn ymddiriedolaeth i'r Amgueddfa.

iii. Derbyniodd yr Amgueddfa adroddiad yr ymgynghorwyr ar y ffordd fwyaf effeithiol o greu Oriel Genedlaethol, a basiwyd wedyn at Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w ystyried.

Yn Sain Ffagan, mae'r gwaith wedi dechrau ar strategaeth i ailddatblygu atyniad ymwelwyr mwyaf poblogaidd y wlad fel Amgueddfa Hanes Cymru.

Rhoddodd ymgynghoriad 2005 arweiniad clir i'r Amgueddfa am ddymuniad y cyhoedd o ran cyfeiriad Sain Ffagan yn y dyfodol, gan gadarnhau yr hyn y mae nifer o ymwelwyr cartref a thramor wedi bod yn ei ddweud wrthym dros y blynyddoedd – mai Sain Ffagan yw'r lle y mae nifer o bobl yn troi ati gan ddisgwyl profiad o hanes datblygiad cenedl.

Dros y ddegawd nesaf, bydd Sain Ffagan yn cael ei ddatblygu i fod yn le sy'n adrodd hanes bobl a chenedl Cymru, o'r cyfnod cynharaf hyd heddiw. Bydd y datblygiad yn ehangu'r cynnig yn Sain Ffagan drwy wneud mwy o synnwyr o'r safle drwy roi'r adeiladau cyfredol a'r casgliadau hanes cymdeithasol yng nghyd-destun ehangach hanes cenedlaethol Cymru.

Bydd llawer o'r casgliadau archeolegol sy'n gynharach na'r cyfnod modern yn cael eu symud o Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, sydd yng nghanol y ddinas, a'u hail arddangos yn Sain Ffagan fel bod stori lawn yn cael ei hadrodd. Y nod yw cyflawni disgwyliadau ymwelwyr sydd am ddysgu mwy am wreiddiau Cymru a pham ei bod yn wlad mor amrywiol heddiw.

Bydd cais am arian i gefnogi'r fenter hon yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri yn 2009.

Cytunwyd ar argymhellion i ailddatblygu Adain Orllewinol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a, gyda chynllun am fuddsoddiad o £4.15m, rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cychwyn fis Medi 2009. Wedi'i cwblhau, bydd yr orielau yn cael eu defnyddio i arddangos celfyddyd gyfoes a modern, ac yn creu Amgueddfa Gelf Cymru ar lawr cyntaf yr Amgueddfa.

## Polisïau mewn Perthynas â Staff

### Cyfleoedd Cyfartal

Mae'r Amgueddfa yn parhau i weithredu gweithdrefnau recriwtio heb gamwahaniaethu, ac felly mae'n cyfweld ac yn penodi ar haeddiant yn unig. Mae'r Amgueddfa'n gweithio gydag Ymgynghorwyr Cyflogaeth Pobl ag Anableddau er mwyn sicrhau bod anghenion pobl ag anableddau yn cael eu cyflawni wedi eu penodi. Bydd gweithwyr sy'n dioddef anabledd yn ystod eu cyflogaeth yn cael eu cynorthwyo yn yr un modd – gwneir pob ymdrech i sicrhau bod modd i weithwyr aros yn gyflogedig.

Yn fwy na hynny, mae'r Amgueddfa'n parhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau cyhoeddus er mwyn gwella mynediad at adeiladau a gwybodaeth i bobl ag anableddau. Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith hwn, mae'r Amgueddfa wedi hyfforddi dros 60 o weithwyr i fod yn Eiriolwyr Anabledd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r grŵp hwn yn hyrwyddo amrywiaeth ledled y sefydliad ac yn gweithio at Fodel Cymdeithasol Anabledd.

Yn ystod 2008-09, cyhoeddodd yr Amgueddfa Gynllun Anableddau yn cynnwys Cynllun Gweithredu 3 blynedd. Datblygwyd y Cynllun mewn ymgynghoriad gyda grwpiau ac unigolion ag anableddau. Mae cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro gan Eiriolwyr Anableddau o fewn y mudiad, a bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd.

Yn ogystal â'i pholisi ar ymgysylltu gyda phobl ag anabledd, mae hefyd gan yr Amgueddfa bolisi Cyfle Cyfartal, sy'n ymrwymo'r sefydliad i 'ddileu pob math o wahaniaethu ac aflonyddwch yn y sefydliad'.

### Ymgynghori â Staff

Mae'r Amgueddfa yn parhau i gydymffurfio â Rheoliadau Gwybodaeth ac Ymgynghori 2005 gan ymgynghori gyda staff, yn uniongyrchol a thrwy undebau cydnabyddedig, ar y prif newidiadau yn y sefydliad. Mae'r rheidrwydd cyfreithiol hwn i ymgynghori ag amrywiol ddulliau atodol yn cynnwys cyfarfodydd staff, cyfarfodydd adran, gweithgorau, ebost a mewnrwyd, a dulliau anffurfiol o gyfathrebu fel bo'n briodol. Mae'r Amgueddfa hefyd wedi cynyddu amlder ei Fforwm Staff (lle trafodir faterion o bwysigrwydd gyda chynrychiolwyr Undebau Llafur cydnabyddedig) i bob yn ail fis.

### Hyfforddi Staff

Mae'r Amgueddfa yn parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau i ddarparu cyfleoedd datblygu a hyfforddiant (ffurfiol ac anffurfiol) i'w holl staff. Clustnodwyd statws Buddsoddwyr Mewn Pobl fel mesur allanol o'r ymrwymiad hwn. Sicrhawyd yr achrediad hwn gan Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Mae Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru yn gweithio tuag at yr asesiad.

### Data Absenoldeb Salwch

Mae gan yr Amgueddfa bolisïau i gefnogi rheolaeth absenoldeb o'r gwaith. Mae'r Amgueddfa'n ystyried absenoldeb o fwy na 28 diwrnod yn olynol fel absenoldeb tymor hir. Mae pob absenoldeb yn cael ei gofnodi a'i fonitro gan reolwyr llinell a'r adran AD. Cynhyrchir adroddiadau absenoldeb chwarterol ar gyfer bob Pennaeth Adran, ac fe gynhelir adroddiadau dilynol lle bo pryderon yn codi. Roedd absenoldebau ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 yn 5.95% o'i gymharu gyda'r ffigwr o 3.76% ar

gyfer y flwyddyn flaenorol. Roedd dwy ffactor yn cyfrannu at y cynnydd hwn – yr epidemig ffliw yn ystod Rhagfyr 2008 a Ionawr 2009 a chynnydd yn y nifer o aelodau staff ag afiechyd difrifol, tymor hir.

**Adroddiad ar Daliadau**

Mae'r Amgueddfa'n talu bob aelod o staff dan system gyflogau a graddau a gytunwyd, a gyflwynwyd yn benodol er mwyn sicrhau triniaeth deg a chyfiawn. Mae'n cwmpasu'r holl weithwyr, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, am fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n pennu telerau ac amodau ei benodiad. Mae proses apelio annibynnol ar gael er mwyn ystyried graddfeydd.

Bob blwyddyn mae gweithgor yn ystyried cyflogau'r Amgueddfa ac yn datblygu argymhelliad taliadau sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w gymeradwyo ac sy'n sail i drafodaethau gydag undebau llafur cydnabyddedig. Mae pecyn cyflogau ac amodau newydd ar gyfer yr Amgueddfa i gyd yn codi o hyn. Rhaid cadw at y pecyn hyd at y cylch trafod nesaf. Mae cynnydd blynyddol o dan y cylch cyflogau'n dibynnu ar system yr Amgueddfa o adolygiadau datblygu personol. Mae'r holl staff yn derbyn elfennau chwyddiant a gynhwysir yn y cylch cyflogau yn awtomatig i'r holl staff.

Mae cyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol ynghyd â bonws blynyddol. Mae'r Pwyllgor Taliadau, sy'n cynnwys y Llywydd, yr Is-lywydd, y Trysorydd, Rhiannon Wyn Hughes, Huw Williams a'r Athro John Last, yn cytuno ar faint y bonws (hyd at uchafswm o 10% o'i gyflog). Wrth ystyried maint y bonws, caiff perfformiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol ei adolygu yn erbyn set o amcanion a bennwyd ymlaen llaw, a bydd y Pwyllgor Taliadau yn ystyried y gwerthusiad. Caiff canran o'r bonws ei gyfuno i'w gyflog blynyddol, a chaiff y swm ei benderfynu ar sail canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Rhestrir aelodau Bwrdd Cyfarwyddwyr yr Amgueddfa ar dudalen 12 a cheir rhagor o fanylion am daliadau a budd-daliadau pensiwn y Cyfarwyddwyr yn nodyn 7(c) i'r Cyfrifon. Nid oes unrhyw un o'r Cyfarwyddwyr ar gytundeb tymor penodol, a chyflogir pob un, heblaw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, o dan amodau a thelerau arferol yr Amgueddfa. Mae unrhyw addasiadau i amodau a thelerau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn dibynnu ar gytundeb y Pwyllgor Taliadau a Llywodraeth Cynulliad Cymru, lle bo hynny'n briodol.

Mae'r cyfnod o rybudd ar gyfer y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn 6 mis. Mae cyfnodau rhybudd Cyfarwyddwyr eraill yn amrywio yn ôl hyd eu gwasanaeth. Mae angen rhoi 1 wythnos o rybudd am bob blwyddyn o wasanaeth (ac 1 wythnos ychwanegol) hyd at uchafswm o 13 wythnos. Dyma ddyddiadau cychwyn cyflogaeth y Cyfarwyddwyr: Michael Houlihan (Cyfarwyddwr Cyffredinol) – 14 Ebrill 2003; Jon Sheppard – 1 Tachwedd 2002; John Williams-Davies – 1 Medi 1973; Michael Tooby – 1 Ionawr 2000; Mark Richards – 25 Ionawr 1999; Robin Gwyn – 1 Chwefror 2001. Disgrifir y ddarpariaeth ar gyfer iawndal am derfyniad cynnar yng nghytundeb diswyddo arferol yr Amgueddfa.

Mae mwy o fanylion yn nodyn 7(c) i'r Cyfrifon ac mae'r wybodaeth honno i gael ei archwilio.

## Polisi Iaith Gymraeg

Disgwylir i bob CNLC lunio ac adolygu strategaeth i brif-ffrydio'r Gymraeg bob blwyddyn (sy'n cynnwys gweithredu Cynllun Iaith). Gweithredwyd Strategaeth Prif-ffrydio'r Amgueddfa ar gyfer 2007/08 yn llwyr ac fe'i diwygiwyd wedyn i adlewyrchu goblygiadau prif-ffrydio Cynllun Gweithredu cyffredinol 2008-09.

## Yr Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio'r cyfrifon yn ôl gofynion Adran 9 (8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae manylion tâl yr archwilydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 yn Nodyn 6 i'r Cyfrifon Ariannol.

## Prif Swyddfa

Prif swyddfa Amgueddfa Cymru yw: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

## Prif Ymgynghorwyr

**Bancwyr:** Lloyds TSB Bank CCC, Caerdydd

**Cyfreithwyr:** Geldards LLP, Caerdydd

**Archwilwyr Mewnol:** RSM Bentley Jennison, Caerdydd

**Rheolwyr Buddsoddiadau:** Barclays Wealth, Caerdydd

**Rheolwyr y Gronfa Bensiynau:** BBS Consultants and Actuaries LLP, Bryste

**Trethiant:** Deloitte & Touche LLP, Caerdydd

*Michael Houlihan*
Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 23 Gorffennaf 2009

*J. Peter W. Morgan*
Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 23 Gorffennaf 2009

# BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR

(O 1 Ebrill 2008 ymlaen)

## Llywydd

Paul E. Loveluck, CBE, JP, BA *

## Is-lywydd

Elisabeth Elias, MA, DL *

## Trysorydd

J. Peter W. Morgan, M.Sc., FCA *

## Penodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Rhiannon Wyn Hughes, MBE, FRSA
Huw R.C. Williams (*o 20 Tachwedd 2008)
Gareth Williams
Carole-Anne Davies (*o 20 Tachwedd 2008)
Miriam Hazel Griffiths, MA
Yr Athro R. Gareth Wyn Jones, D.Phil., D.Sc., FIBiol., FRSC
Christina Macaulay, MA (Anrhydedd)

## Penodwyd gan Amgueddfa Cymru

Dr Iolo ap Gwynn, B.Sc., Ph.D., FRMS
Yr Athro C. L. Jones, OBE, FRSA
Yr Athro J. Last, CBE, MA, D.Litt., Hon FMA, FRSA
Dr W. B Willott, CB
Yr Athro Jonathan Osmond, MA, D.Phil (Oxon), FRHist S
Dr Haydn Ellis Edwards, B.Sc., MBA, Ph.D., FRSC, FIMgt

* Nodi aelodau'r Pwyllgor Archwilio

# CYFARWYDDIAETH MENTRAU AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CYMRU CYF.

(O 1 Ebrill 2008 ymlaen)

Gareth Williams – Cadeirydd
Christina Macaulay (o 19 Mehefin 2008)
Vivian Pollard
Sian Llywelyn
Arwyn Davies
Michael Houlihan
Jon Sheppard
Philip Smith (o 4 Medi 2008)

# CYFARWYDDIAETH

(O 1 Ebrill 2008 ymlaen)

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Cyffredinol | Michael Houlihan |
| Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, (Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol) | Eurwyn Wiliam – ymddeol 31 Mawrth 2009 |
| Cyfarwyddwr Gweithredu (Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol – penodwyd 18 Mehefin 2009) | Mark Richards |
| Cyfarwyddwr Cyllid | Jon Sheppard |
| Cyfarwyddwr Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru (Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil – penodwyd 1 Ebrill 2009) | John Williams-Davies |
| Cyfarwyddwr Dysgu a Rhaglenni | Michael Tooby |
| Cyfarwyddwr Cyfathrebu | Robin Gwyn |

## Datganiad o Gyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol

O dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, rhaid i Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon i ddangos darlun gwir a theg o weithgareddau ariannol yr Amgueddfa a'i hadnoddau net, enillion a cholledion wedi a heb ei gwireddu, a llif arian yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon rhaid i'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy (2005): Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, yn arbennig:

- cadw at gyfarwyddyd cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a'u defnyddio nhw a'r polisïau cyfrifo perthnasol mewn ffordd gyson;
- barnu ac amcangyfrif mewn ffordd resymol a chall;
- nodi a yw'r safonau cyfrifo a'r datganiadau o arferion cymeradwy perthnasol wedi cael eu dilyn fel y nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw eithriadau o bwys yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dynodi mai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd Swyddog Cyfrifo Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, yn disgrifio Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys bod yn gyfrifol am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano, a chadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Amgueddfa.

## Datganiad ar ddatgelu gwybodaeth i archwilwyr

Cyn belled ag y bo'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Trysorydd, sef cynrychiolydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad sy'n anhysbys i archwilwyr yr Amgueddfa, ac maent wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn cael gwybod am unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad, ac er mwyn sicrhau bod archwilwyr yr Amgueddfa yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

# Datganiad ar Reolaeth Fewnol

## Cwmpas y cyfrifoldeb

Mae'r Swyddog Cyfrifo a'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw system gadarn o reolaeth fewnol sy'n helpu i wireddu polisïau, nodau ac amcanion Amgueddfa Genedlaethol Cymru a bennwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, a hynny wrth amddiffyn y cronfeydd a'r asedau cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo'n bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo drwy Reoli Arian Cyhoeddus

## Pwrpas y system reolaeth fewnol

Bwriad y system reolaeth fewnol yw rheoli yn hytrach na dileu unrhyw risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; nid yw'n rhoi sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd ond mae'n cynnig lefel resymol o sicrwydd. Wrth wraidd y system o reolaeth fewnol mae proses barhaus i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Amgueddfa, pwyso a mesur tebygolrwydd y risgiau hyn o ddigwydd a'u heffaith, a'u rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Bu'r system o reolaeth fewnol yn gweithredu gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys. Gan gefnogi'r system rheolaeth fewnol, mae'r Amgueddfa'n gweithredu polisïau Twyll a Chwythu Chwiban sy'n ddibynnol ar adolygiad archwilio.

## Y gallu i ymdrin â risg

Cyfrifoldeb y Bwrdd Rheoli (y Cyfarwyddwyr) yw rheoli risg o ddydd i ddydd, a chaiff adolygiadau ffurfiol eu cynnal gan Grŵp Rheoli Risg. Caiff yr adolygiadau hyn eu harchwilio gan is-bwyllgor Adolygu Perfformiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio annibynnol. Drwy dynnu ar brofiad yr archwilwyr mewnol, sy'n mynychu'r adolygiadau risg, a thrwy brofiad aelodau annibynnol y Pwyllgor Archwilio, caiff y broses ei adnewyddu'n barhaus trwy gymharu â sefydliadau eraill.

## Y Fframwaith Risgiau a Rheoli

Mae grŵp trawsadrannol penodol yn cynnal adolygiad Rheoli Risg trylwyr, gan edrych ar y cynnydd wrth reoli risgiau mawr, gan gynnwys, wrth gwrs, diogelwch parhaus casgliadau'r Amgueddfa. Mae'r grŵp yn cadw Cofrestr Risgiau gan flaenoriaethu'r holl risgiau yn ôl y tebygolrwydd i'r perygl gael ei wireddu a'i effeithiau posibl. Mae'r grŵp yn trafod newidiadau i'r bygythiadau posibl i wireddu nodau'r Amgueddfa gyda'r holl benaethiaid adran yn gyson, a thrwy hynny'n sicrhau bod y risgiau sy'n cael eu hasesu yn cwmpasu pob agwedd o weithredoedd yr Amgueddfa. Mae clustnodi a rheoli risg hefyd yn eitem gyson ar agenda pob cyfarfod Gweithgor sy'n cynnwys y Bwrdd Rheoli a phob Pennaeth Adran. Cedwir Cofrestrau Risg ar wahân ar gyfer yr is-gwmni masnachu, y cwmni menter ar y cyd, ac ar gyfer pob project mawr a gyflawnir. Ar ddiwedd project, caiff y Gofrestr Risg ei hasesu a chaiff pob risg sy'n parhau ei drosglwyddo i brif gofrestr yr Amgueddfa.

Mae gofyn i'r grŵp ystyried risgiau posibl penodol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio. At hynny, mae'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio yn adolygu'r newidiadau i'r Gofrestr Risg a materion a drafodir yng nghyfarfodydd chwarterol y grŵp, yn ogystal â gweithredoedd lliniaru a gymerir yn erbyn y risgiau mwyaf.

Mae aelodau'r Grŵp Rheoli Risg yn cynnwys yr archwilydd mewnol er mwyn trafod materion sy'n codi pryder mewn cyrff eraill. Mae cynrychiolaeth yr adrannau'n cael ei adolygu'n gyson er mwyn sicrhau bod pob risg posibl yn cael ei drafod.

Mae bygythiadau i ddiogelwch asedau'r Amgueddfa yn risg sylfaenol, yn gofyn am weithredoedd lliniarol, ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan archwiliad mewnol, y Grŵp Rheoli Risg a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009, derbyniodd ac adolygodd y Pwyllgor Archwilio adroddiad manwl ar y risg a'r gweithredoedd lliniarol o ran diogelwch a chyfrinachedd data personol a data

arall. Cadarnhawyd rheolaeth briodol, a'u hadrodd, gan gwmpasu codi ymwybyddiaeth a'r peryglon a'r materion ymysg gweithwyr yr amgueddfa, dosbarthu canllawiau a pholisïau diwygiedig, gweithredu rheolaeth cyfrinair a mynediad priodol, darparu cefnogaeth dechnegol a darparu cyfleusterau amgryptio priodol. Ni chafwyd digwyddiadau o ran data personol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Polisi a Chanllawiau Rheoli Risg yn pennu'r fframwaith, y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau rheoli risg, ynghyd â chanllawiau ar adnabod, asesu, monitro a rheoli risg. Mae archwiliad cynllun a gweithrediad y broses Rheoli Risg yn cael ei gynnwys o fewn rhaglen waith gyson yr archwilwyr mewnol, ac roedd i'w adolygu o ran 'aeddfedrwydd risg' yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009. Roedd hyn yn ystyried "nid yn unig y fframwaith sy'n bodoli i adnabod, asesu, cofnodi a monitro risg, ond y ffordd y defnyddir y wybodaeth honno". Roedd asesiad risg aeddfedrwydd yr Amgueddfa yr archwilwyr mewnol yn ei osod ar y lefel uchaf o fewn y sbectrwm aeddfedrwydd risg.

## Adolygiad o effeithiolrwydd

Y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae gwaith yr archwilwyr mewnol a'r Bwrdd Rheoli – sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli fewnol – a sylwadau archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill, yn bwydo'r gwaith o adolygu effeithiolrwydd y system rheoli fewnol. Hysbyswyd y Swyddog Cyfrifo am oblygiadau canlyniad ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli fewnol gan yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, ac mae cynllun i wynebu gwendidau a sicrhau gwelliannau parhaus i'r system.

Mae'r Amgueddfa wedi sefydlu'r prosesau canlynol i ategu'r fframwaith rheoli risgiau er mwyn cynnal system effeithiol o reolaeth fewnol:

- trefniadau gweinyddu a rheoliadau ariannol trylwyr, gan gynnwys didoli dyletswyddau a gwahanol lefelau o awdurdod a ddirprwyir;
- systemau cyllidebu cynhwysfawr â chyllideb flynyddol a gymeradwyir gan yr Ymddiriedolwyr ac a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd gan y Penaethiaid Adran, y Cyfarwyddwyr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ar ffurf adroddiadau ariannol chwarterol sy'n disgrifio perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon;
- pennu targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall o fewn y Cynllun Gweithredol, a monitro'r cynnydd yng nghyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Adolygu Perfformiad;
- canllawiau clir ar gyfer rheoli a monitro buddsoddiadau cyfalaf;
- adroddiadau cyson gan yr archwilwyr mewnol yn ôl safonau a bennir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n cynnwys barn annibynnol yr Archwilydd Mewnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r system o reolaeth fewnol ac yn cynnig argymhellion ar gyfer gwella. Ar sail gwaith archwilio mewnol ar gyfer y deuddeg mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009, daeth yr Archwiliwr Mewnol i'r casgliad bod gan yr Amgueddfa reolaeth a gweithdrefnau risg digonol ac effeithiol i reoli cyflawni ei amcanion.

Un o gydrannau allweddol adolygiad yr Amgueddfa o effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol yw'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys Ymddiriedolwyr a hyd at bedwar o aelodau annibynnol (y mae un ohonynt yn gweithredu fel Cadeirydd fel rheol). Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac mae cofnodion y cyfarfod, ac adroddiad y Cadeirydd yn cael eu hystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r cyfarfodydd yn derbyn adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ac allanol ac yn canlyn yr holl bwyntiau gweithredu sy'n codi. Mae Cyfarwyddwyr allweddol yn mynychu'r cyfarfodydd fel y bo'n briodol i'r agenda, ac mae'r Pwyllgor yn cyfarfod â'r archwilwyr yn flynyddol heb Gyfarwyddwyr ac i'r gwrthwyneb. Mae cylch gwaith bras y Pwyllgor yn cynnwys pob agwedd ar risg, rheolaeth a llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys adroddiadau rheoli risg.

*Michael Houlihan*
Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar
23 Gorffennaf 2009

*J. Peter W. Morgan*
Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar
23 Gorffennaf 2009

# AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Rwy'n tystio fy mod i wedi archwilio datganiadau ariannol Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen Gyfunol, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y polisïau cyfrifo a ddisgrifir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adroddiad fel wedi'i archwilio.

## Cyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, y Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel Swyddog Cyfrifo, sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Ariannol a'r Datganiadau Ariannol yn unol ag Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed odani, ac am sicrhau cysondeb o ran y trafodion ariannol. Disgrifir y cyfrifoldebau hyn yn Natganiad Cyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifo.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r darn o'r Adroddiad ar Daliadau sydd i'w archwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Rwyf yn adrodd fy marn ynghylch p'run a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a gawsant eu paratoi'n briodol yn unol ag adran 9(4) Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a'r cyfarwyddyd a wnaed gan Weinidogion Cymru yn ôl y gofynion hynny. Rwyf yn adrodd fy marn o ran a yw'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol. Rwyf yn adrodd hefyd a gafodd y gwariant, yr incwm a'r adnoddau a ariannwyd drwy gymhorthdal grant, ym mhob modd perthnasol, eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Rwyf hefyd yn adrodd os nad yw Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, neu os na chefais yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol ar gyfer fy archwiliad, neu os na chafodd gwybodaeth benodol a nodwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, ynglŷn â thaliadau neu drafodion eraill, ei ddatgelu.

Rwyf yn ystyried a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn dangos bod Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, ac yn adrodd os nad yw'n cydymffurfio. Nid oes gofyn i mi ystyried a yw'r Datganiad yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau, na mynegi barn am effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu corfforaethol yr Amgueddfa na'i threfniadau risg a rheolaeth.

Rwyf hefyd yn darllen y wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Ariannol, gan ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Rwyf yn ystyried y goblygiadau i'r adroddiad os caf wybod am unrhyw gamddatganiad sy'n dod i'r amlwg neu anghysonderau materol yn y datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i gwmpasu unrhyw wybodaeth arall.

## Sail y Farn

Cyflawnais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae'n cynnwys archwiliad, ar sail prawf, o'r dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol a'r darn o'r

Adroddiad ar Daliadau sydd i'w archwilio. Mae'n cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau sylweddol y mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifo yn eu gwneud wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo'n briodol i sefyllfa Amgueddfa Genedlaethol Cymru, yn cael eu harfer yn gyson ac yn cael eu datgelu mewn digon o fanylder.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth ac esboniadau oedd eu hangen, yn fy marn i, i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r darn o'r Adroddiad ar Daliadau sydd i'w archwilio, yn rhydd o gamfynegiant materol; boed drwy dwyll neu gamgymeriad, a bod y gwariant, incwm ac adnoddau a ariannwyd trwy gymhorthdal grant wedi cael eu defnyddio at y diben a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso'n gyffredinol addasrwydd y dull o gyflwyno'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r darn o'r Adroddiad ar Daliadau sydd angen ei archwilio.

## Y Farn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'r grŵp ar 31 Mawrth 2009, o'r adnoddau a ddaeth i mewn a'u defnydd, a llif arian y grŵp ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben bryd hynny, yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a'r cyfarwyddyd a wnaed odani gan Weinidogion Cymru;
- paratowyd y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w archwilio yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a'r cyfarwyddyd a wnaed odani gan Weinidogion Cymru; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.

## Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd faterol, mae'r gwariant, yr incwm a'r adnoddau a ariannwyd drwy gymhorthdal grant wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w cyflwyno ar y datganiadau ariannol hyn.

*Jeremy Colman*
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Dyddiad: 30 Gorffennaf 2009

## DATGANIAD CYFUNOL O WEITHGAREDDAU ARIANNOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2009

| | Nodiadau | Cronfeydd cyhoeddus Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd cyhoeddus Digyfyngiad £'000 | Cronfeydd preifat Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd preifat Digyfyngiad £'000 | 2008-09 Cyfanswm £'000 | 2007-08 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ADNODDAU I MEWN** | | | | | | | |
| **Gweithgareddau codi arian:** | | | | | | | |
| Incwm Buddsoddiad | | 0 | 0 | 71 | 6 | **77** | 72 |
| Incwm o Is-gwmni Masnachol | 2 | 0 | 2,610 | 0 | 0 | **2,610** | 2,579 |
| Incwm Codi Arian | | 0 | 0 | 139 | 48 | **187** | 62 |
| | | **0** | **2,610** | **210** | **54** | **2,874** | 3,013 |
| **Gweithgaredddau Dilyn Amcanion Elusennol:** | | | | | | | |
| Grantiau | 3 | 2,608 | 22,740 | 0 | 0 | **25,348** | 25,169 |
| Cyfraniadau a chymynroddion | 4 | 277 | 0 | 109 | 66 | **452** | 995 |
| Incwm arall | 5 | 77 | 1,098 | 14 | 1 | **1,190** | 1,456 |
| | | **2,962** | **23,838** | **123** | **67** | **26,990** | 27,620 |
| **CYFANSWM ADNODDAU I MEWN** | | **2,962** | **26,448** | **333** | **121** | **29,864** | 30,633 |
| **ADNODDAU A WARIWYD** | 6&7 | | | | | | |
| **Costau cynhyrchu incwm:** | | | | | | | |
| Costau is-gwmni masnachol | | 0 | 2,200 | 0 | 0 | **2,200** | 2,271 |
| Costau Codi Arian | | 0 | 488 | 0 | 0 | **488** | 465 |
| | | **0** | **2,688** | **0** | **0** | **2,688** | 2,736 |
| **Costau Gweithgareddau Elusennol:** | | | | | | | |
| Dysgu a Rhaglenni | | 162 | 3,026 | 51 | 0 | **3,239** | 2,953 |
| Casgliadau ac Ymchwil | | 1,319 | 7,439 | 23 | 1 | **8,782** | 8,497 |
| Gweithredu'r Amgueddfeydd | | 799 | 11,643 | 184 | 11 | **12,637** | 12,225 |
| | | **2,280** | **22,108** | **258** | **12** | **24,658** | 23,675 |
| **Costau Llywodraethol** | | 0 | 690 | 0 | 0 | **690** | 672 |
| **Costau/(Incwm) Ariannu Pensiynau** | 16 | 0 | 571 | 0 | 0 | **571** | (281) |
| **CYFANSWM ADNODDAU A WARIWYD** | | **2,280** | **26,057** | **258** | **12** | **28,607** | 26,802 |
| **CYFRAN O FENTER AR Y CYD** | 8 | **(122)** | **0** | **0** | **0** | **(122)** | (126) |
| **ADNODDAU NET I MEWN CYN COSTAU ENWOL** | | **560** | **391** | **75** | **109** | **1,135** | 3,705 |
| Cost cyfalaf enwol | | (3,705) | 550 | 0 | 0 | **(3,155)** | (3,281) |
| **ADNODDAU NET I MEWN/(ALLAN) CYN TROSGLWYDDIADAU** | | **(3,145)** | **941** | **75** | **109** | **(2,020)** | 424 |
| Gwyrdroi cost cyfalaf enwol | | 3,705 | (550) | 0 | 0 | **3,155** | 3,281 |
| **ADNODDAU NET I MEWN AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL** | | **560** | **391** | **75** | **109** | **1,135** | 3,705 |
| (Colledion)/Enillion heb eu gwireddu ar adbrisiad asedau sefydlog a fwriadwyd at ddefnydd Elusennol | 9 | (7,396) | (13) | (106) | (31) | **(7,546)** | 5,650 |
| Colledion wedi/heb eu gwireddu ar werthusiad y farchnad o fuddsoddiadau | 11 | 0 | 0 | (455) | (39) | **(494)** | (200) |
| (Colledion)/Enillion Actwariaidd ar fudd-daliadau diffiniedig cynllun pensiwn | 16 | 0 | (11,613) | 0 | 0 | **(11,613)** | 1,980 |
| **NEWID NET MEWN ARIAN YN YSTOD Y FLWYDDYN ARIANNOL** | | **(6,836)** | **(11,235)** | **(486)** | **39** | **(18,518)** | 11,135 |
| **BALANS ARIAN YMLAEN AR 1 EBRILL 2008** | 17 | 109,289 | (10,106) | 4,114 | 509 | **103,806** | 92,671 |
| **BALANS ARIAN YMLAEN AR 31 MAWRTH 2009** | 17 | **102,453** | **(21,341)** | **3,628** | **548** | **85,288** | 103,806 |

Mae'r SOFA uchod yn cynnwys yr holl enillion a cholledion cydnabyddedig.
Mae pob gweithgaredd yn parhau

Gostyngiad net anghyfunol mewn cronfeydd a gofnodwyd yn Natganiad Gweithgareddau Ariannol yr Amgueddfa ei hun yn ystod 2008-09 oedd £18,507,000 (cynnydd £11,139,000 yn 2007-08).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 35 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## MANTOLEN GYFUNOL AR 31 MAWRTH 2009

| | | Amgueddfa | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2009** | 2008 | **2009** | 2008 |
| | Nodiadau | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | | |
| Asedau Diriaethol | 9 | **77,729** | 85,380 | **77,739** | 85,394 |
| Asedau Treftadaeth | 10 | **13,208** | 12,642 | **13,208** | 12,642 |
| Cyfran o fenter ar y cyd: | 8 | | | | |
| Cyfran o asedau gros | | **13,163** | 13,308 | **13,163** | 13,308 |
| Cyfran o rwymedigaethau gros | | **(27)** | (50) | **(27)** | (50) |
| | | **13,136** | 13,258 | **13,136** | 13,258 |
| Buddsoddiadau | 11 | **1,437** | 1,931 | **1,437** | 1,931 |
| | | **105,510** | 113,211 | **105,520** | 113,225 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Stoc | 12 | **71** | 112 | **387** | 481 |
| Dyledwyr dyledus o fewn blwyddyn | 13 | **1,734** | 1,583 | **818** | 981 |
| Arian parod mewn banc ac mewn llaw | | **1,984** | 1,351 | **2,699** | 1,696 |
| | | **3,789** | 3,046 | **3,904** | 3,158 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Symiau dyledus o fewn blwyddyn | 14 | **(590)** | (761) | **(662)** | (823) |
| **ASEDAU NET CYFREDOL** | | **3,199** | 2,285 | **3,242** | 2,335 |
| **ASEDAU NET AC EITHRIO RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUN PENSIWN** | | **108,709** | 115,496 | **108,762** | 115,560 |
| Diffyg budd-daliadau diffinedig cynllun pensiwn | 16 | **(23,474)** | (11,754) | **(23,474)** | (11,754) |
| **ASEDAU NET GAN GYNNWYS RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUN PENSIWN** | | **85,235** | 103,742 | **85,288** | 103,806 |
| **CRONFEYDD** | 17 | | | | |
| Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig | | **102,453** | 109,289 | **102,453** | 109,289 |
| Cronfeydd Cyhoeddus Digyfyngiad | | **2,080** | 1,584 | **2,133** | 1,648 |
| Cronfa Bensiwn Wrth Gefn | | **(23,474)** | (11,754) | **(23,474)** | (11,754) |
| Cyfanswm Cronfa Gyhoeddus Digyfyngiad | | **(21,394)** | (10,170) | **(21,341)** | (10,106) |
| Cronfeydd Preifat Cyfyngedig | | **3,628** | 4,114 | **3,628** | 4,114 |
| Cronfeydd Preifat Digyfyngiad | | **548** | 509 | **548** | 509 |
| | | **85,235** | 103,742 | **85,288** | 103,806 |

Llofnodwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan

*Michael Houlihan*
Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 23 Gorffennaf 2009

*J. Peter W. Morgan*
Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 23 Gorffennaf 2009

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 35 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## LLIF ARIAN CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2009

| | | Amgueddfa | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | **2008-09 £'000** | 2007-08 £'000 | **2008-09 £'000** | 2007-08 £'000 |
| **Llif Arian Net i Mewn o Weithgareddau Gweithredu** | 18 | **2,049** | 4,536 | **2,419** | 4,685 |
| **Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol** | 19 | **(1,416)** | (4,037) | **(1,416)** | (4,037) |
| **Cynnydd Arian** | 20 | **633** | 499 | **1,003** | 648 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 35 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Nodiadau ar y Cyfrifon ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

## 1. Polisïau cyfrifo

### 1.1 Y Sail Cyfrifo

Paratowyd y Cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gynnwys adbrisiad o'r asedau sefydlog diriaethol o ran eu gwerth i'r Amgueddfa. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae'r Cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu'r Datganiad o Arferion a Argymhellir (SORP 2005), Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr, a'r datganiadau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo, lle bo'r gofynion hynny'n briodol. Mae'r Trysorlys wedi cadarnhau y gallai'r eithriadau i'r SORP Elusennau fod yn berthnasol o ran yr angen am ddatgelu cost hanesyddol asedau diriaethol.

### 1.2 Trafodion y Fenter ar y Cyd

Mae'r Amgueddfa a Chyngor Dinas a Sir Abertawe yn bartneriaid cyfartal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGGA) Cyf, cwmni cyfyngedig dan warant heb gyfran cyfalaf. Cynhwysir canlyniadau'r fenter ar y cyd yn y datganiadau ariannol ac fe'u cyfrifwyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti gros. Llofnodwyd cyfrifon AGGA ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 ar 16 Mehefin 2009 a derbyniwyd barn archwiliad diamod. Gellir derbyn copi o'r cyfrifon o Brif Swyddfa'r Amgueddfa: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

### 1.3 Trafodion yr Is-gwmni

Mae'r Amgueddfa'n gweithredu is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo iddi o'r enw Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (Mentrau AOCC) Cyf. Cynhwysir canlyniadau masnachu'r cwmni yn y datganiadau ariannol cyfunol gan ddefnyddio'r dull 'fesul llinell'. Cafodd cyfrifon Mentrau AOCC Cyf. ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2009 eu cymeradwyo ar 2 Gorffennaf 2009, ac fe dderbyniwyd barn archwiliad diamod. Gellir cael copi o'r cyfrifon o Brif Swyddfa'r Amgueddfa sef: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

### 1.4 Adnoddau i Mewn

Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol os bodlonwyd yr amodau ar gyfer ei dderbyn. Caiff unrhyw grantiau eu credydu i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Caiff incwm ar gyfer gwasanaethau ei gredydu wrth ddarparu'r gwasanaeth. Rhoddir cyfrif am roddion a chymynroddion os bodlonwyd yr amodau ar gyfer eu derbyn.

### 1.5 Adnoddau a Wariwyd

Caiff gwariant ei ddyrannu ar draws y penawdau gwariant. Caiff ei ddyrannu fel bo'n briodol, yn ôl dyraniad uniongyrchol a dosraniad anuniongyrchol ar gyfer costau cynnal.

### 1.6 Asedau Sefydlog Diriaethol ac Asedau Treftadaeth

Caiff peiriannau, offer, cyfarpar a dyfeisiau eu prisio ar sail cost adnewyddu ar ôl dibrisiant. Caiff eiddo ar brydles a rhydd-ddaliad ei brisio ar sail gwerth economaidd eu defnydd neu gost adnewyddu ar ôl dibrisiant fel bo'n briodol. Caiff unrhyw waith cynnal-a-chadw bob dydd mewn perthynas â'r eiddo hwn ei ddileu yn ystod blwyddyn cyflawni'r gwaith.

Diffinnir asedau treftadaeth fel asedau o bwys hanesyddol, celfyddydol neu wyddonol sy'n cael eu cadw at ddibenion datblygu amcanion cadwedigaeth, cadwraeth, ac addysgiadol elusennau, a chyfrannu drwy fynediad cyhoeddus i ddiwylliant ac addysg y genedl ar raddfa genedlaethol neu leol. Mae'r asedau hyn wrth galon y gwaith o gyflawni amcanion yr Amgueddfa ac yn cynnwys tir, adeiladau, arddangosion a chreiriau. Ers 1 Ebrill 2001, mae asedau treftadaeth a brynwyd drwy grant sbesimenau neu a gyflwynwyd i'r Amgueddfa wedi cael eu cyfalafu ar sail cost hanesyddol. Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon y Trysorlys, nid yw'r asedau a ddaeth i feddiant cyn 1 Ebrill 2001 wedi cael eu cyfalafu ac ym marn yr Ymddiriedolwyr mae cost prisio'r rhain yn rhwystr.

Ni chaiff eitemau cyfalaf â chost o lai na £5,000 eu cyfalafu. Caiff asedau eu hadbrisio'n broffesiynol bob 5 mlynedd ac yn y cyfamser, caiff unrhyw asedau eu hadbrisio gan ddefnyddio mynegeion (ac eithrio adnoddau TG am nad oes mynegai ar eu cyfer) yn ogystal ag adolygiad blynyddol y rheolwyr o ddiffygion.

### 1.7 Dibrisiant

Caiff dibrisiant ei godi ar sail asedau sefydlog diriaethol (ac eithrio asedau tir ar rydd-ddaliad a threftadaeth).

Mae'r prif gyfraddau, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, fel a ganlyn:

Bydd eiddo ar rydd-ddaliad ac eiddo ar brydles hir yn dibrisio yn ystod ei oes ddefnyddiol sef rhwng 50 a 125 mlynedd.

Yn ôl SORP Elusennau 2005, nid yw asedau treftadaeth yn dibrisio. Barn yr Ymddiriedolwyr yw bod gwerth gweddillol gweithiau celf yn uwch na'r gwerth cadw ac mae oes ddefnyddiol ddisgwyliedig asedau treftadaeth eraill mor hir nad yw dibrisiant yn faterol.

Bydd peiriannau, offer, cyfarpar a dyfeisiau'n dibrisio dros 5-10 mlynedd. Mewn achosion penodol, er enghraifft yn achos eitemau sy'n destun newidiadau technegol neu lle bo ffactor darfodol uchel, caiff cyfnod o 3 blynedd ei ddefnyddio. Mae'n bosibl y bydd gan rai eitemau penodol eraill gyfnod dibrisio hirach.

Codir asedau ar brydles ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

**1.8 Cronfeydd**
Mae Cronfeydd Cyhoeddus a Phreifat Digyfyngiad ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr, i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr Amgueddfa.

Y Cronfeydd Cyfyngedig Cyhoeddus yw'r Grantiau Cyfalaf a'r Grantiau Prynu Sbesimenau sy'n dod oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff eraill y Llywodraeth.

Cronfeydd Cyfyngedig Preifat yw cronfeydd sy'n dibynnu ar gyfyngiadau penodol a osodir gan gyfranwyr. Rhaid i'r cronfeydd hyn gyd-fynd â'u gweithredoedd sefydlu.

**1.9 Stoc**
Mae'r Amgueddfa'n cadw stoc o gyhoeddiadau ac eitemau eraill i'w gwerthu yn ei siopau. Mae'r rhain yn cael eu prisio ar isafswm y gost a'r gwerth net y maent yn ei dynnu.

**1.10 Buddsoddiadau**
Dangosir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Polisi'r Amgueddfa yw cadw cofnodion prisio cyfoes, felly pan fo buddsoddiadau yn cael eu gwerthu nid oes enillion na cholledion mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad nid yw'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn gwahaniaethu rhwng addasiadau prisio yn ymwneud â gwerthiant a'r rhai yn ymwneud â daliannau parhaus am eu bod yn cael eu trin fel newidiadau yng ngwerth portffolio buddsoddiad drwy gydol y flwyddyn.

**1.11 Gwaith ymchwil a Datblygu**
Caiff gwariant ar waith ymchwil a datblygu ei osod yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn o dan sylw.

**1.12 Trethiant**
Mae Cyllid y Wlad wedi rhoi statws elusen i'r Amgueddfa, ond codir Treth Gorfforaeth ar Fentrau Cyf. AOCC.

**1.13 Pensiynau**
Caiff cyfraniadau at Gynllun Pensiwn Amgueddfa Genedlaethol Cymru eu codi yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn gwasgaru cost pensiynau dros fywyd gwaith y gweithwyr. Cyfrifir y gost yn ôl y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail y costau gwasanaethu fel y'u cyfrifir gan actwari'r cynllun.

**1.14 Cost Cyfalaf**
Mae Cyfrifon y Llywodraeth yn gofyn am gynnwys cost dybiannol cyfalaf, a gyfrifir drwy osod canran o 3.5% ar y cyfalaf cyhoeddus cyfartalog. Mae cost taliadau cyfalaf yn mesur adenillion priodol ar ecwiti'r trethdalwyr.

**1.15 Deilliannau**
Nid oes unrhyw fenthyciadau gan yr Amgueddfa ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau'r Llywodraeth o ran ei anghenion arian parod. Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau materol wedi eu nodi mewn sterling, ac nid ydynt yn agored i risgiau o ran cyfraddau llog neu arian treigl.

**1.16 Arian Tramor**
Mae asedau a rhwymedigaethau mewn arian tramor yn cael eu trosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y fantolen. Mae trafodion mewn arian tramor yn cael eu trosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodyn. Mae gwahaniaethau cyfnewid yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar adnoddau net i mewn.

## 2. Yr Is-gwmni Masnachu

Mae gan yr Amgueddfa is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo iddi. Mae'r is-gwmni'n gwmni corfforedig yn y DU. Prif waith Mentrau AOCC Cyf. yw gwerthu nwyddau'r holl siopau'r Amgueddfa, arlwyaeth, parcio, trwyddedu delweddau, llogi corfforaethol, archebion post ac elw o werthu arddangosfeydd a hawliau ffilmio. Mae Mentrau AOCC Cyf. yn dychwelyd ei elw i'r Amgueddfa ar ffurf rhoddion cymorth. Ceir crynodeb o'u canlyniadau masnachu isod.

| | 2008-09 £ '000 | 2007-08 Ailddatgan £ '000 |
|---|---|---|
| Trosiant | **2,454** | 2,433 |
| Costau gwerthu | **(1,882)** | (1,958) |
| **Elw Gros** | **572** | 475 |
| Costau gweinyddol | **(301)** | (290) |
| Incwm Gweithredu arall | **124** | 111 |
| **Elw ar weithgareddau arferol cyn llog** | **395** | 296 |
| Llog derbyniadwy | **20** | 35 |
| Elw ar symud arian | **12** | 0 |
| Llog taladwy | **(17)** | (23) |
| **Elw ar weithgareddau arferol cyn trethi** | **410** | 308 |
| Trethi ar elw gweithgareddau arferol | **0** | 0 |
| **Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol** | **410** | 308 |
| Cymorth rhoddion taladwy i'r Amgueddfa | **(420)** | (312) |
| **Colled argadwedig ar gyfer y flwyddyn ariannol** | **(10)** | (4) |

## 3. Grantiau Derbyniadwy

| | Cyfyngedig Cyhoeddus £'000 | Digyfyngiad Cyhoeddus £'000 | 2008-09 £'000 | 2007-08 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cymhorthdal Refeniw | 0 | 22,501 | **22,501** | 21,301 |
| Cymhorthdal Prynu Sbesimenau | 1,044 | 0 | **1,044** | 1,075 |
| Cymhorthdal cyfalaf | 956 | 0 | **956** | 2,325 |
| Grantiau o gyrff eraill y Llywodraeth | 608 | 239 | **847** | 468 |
| | **2,608** | **22,740** | **25,348** | 25,169 |

Cafodd yr Amgueddfa gyfanswm o £24,501,000 mewn grantiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (£24,701,000 yn 2007-08). Mae hyn yn cynnwys Cymhorthdal Refeniw, Prynu Sbesimenau a Chyfalaf.

Mae'r grantiau a gafwyd gan gyrff eraill y llywodraeth yn cynnwys: grant o £741,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (£150,000 yn 2007-08); grant o £26,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (£162,000 yn 2007-08); £Dim gan yr Undeb Ewropeaidd (£5,000 yn 2007-08) a grant arall o £80,000 (£151,000 yn 2007-08).

## 4. Rhoddion a Chymynroddion

| | Cronfeydd Cyhoeddus | | Cronfeydd Preifat | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfyngedig £'000 | Digyfyngiad £'000 | Cyfyngedig £'000 | Digyfyngiad £'000 | 2008-09 £'000 | 2007-08 £'000 |
| Asedau a gyflwynwyd | 0 | 0 | 109 | 0 | **109** | 218 |
| Rhoddion eraill | 277 | 0 | 0 | 66 | **343** | 777 |
| | **277** | **0** | **109** | **66** | **452** | **995** |

## 5. Incwm Arall

| | Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd Cyhoeddus Digyfyngiad £'000 | Cronfeydd Preifat Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd Preifat Digyfyngiad £'000 | **2008-09 £'000** | 2007-08 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu a Rhaglenni | 0 | 128 | 0 | 0 | **128** | 124 |
| Casgliadau ac Ymchwil | 77 | 141 | 0 | 0 | **218** | 200 |
| Gweithredu'r Amgueddfa | 0 | 694 | 0 | 0 | **694** | 869 |
| Cynhaliaeth | 0 | 135 | 14 | 1 | **150** | 263 |
| | **77** | **1,098** | **14** | **1** | **1,190** | 1,456 |

## 6. Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd

### (a) Amgueddfa

| | Costau Uniongyrchol £'000 | Dibrisiant £'000 | Costau cynnal: *Marchnata, y wasg a CC* £'000 | Costau cynnal: *Cyllid a Gweinyddiaeth* £'000 | Costau cynnal: *TGCh* £'000 | Costau cynnal: *Adnoddau Dynol* £'000 | **2008-09 £'000** | 2007-08 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Cynhyrchu Incwm** | | | | | | | | |
| Costau codi arian | 400 | 0 | 43 | 19 | 16 | 10 | **488** | 465 |
| | 400 | 0 | 43 | 19 | 16 | 10 | **488.5** | 465 |
| **Costau Gweithgareddau Elusennol** | | | | | | | | |
| Dysgu a Rhaglennu | 2,853 | 98 | 82 | 40 | 101 | 65 | **3,239** | 2,953 |
| Casgliadau ac Ymchwil | 7,699 | 464 | 77 | 135 | 244 | 163 | **8,782** | 8,497 |
| Gweithredu'r Amgueddfeydd | 11,406 | 481 | 284 | 163 | 164 | 307 | **12,805** | 12,395 |
| | 21,958 | 1,043 | 443 | 338 | 509 | 535 | **24,826** | 23,845 |
| **Costau Llywodraethu** | 520 | 0 | 136 | 8 | 16 | 10 | **690** | 672 |
| **Costau ariannu pensiynau** | 571 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **571** | (281) |
| **Cyfanswm a wariwyd** | **23,449** | **1,043** | **622** | **365** | **541** | **555** | **26,575** | 24,701 |

### (b) Cyfunol

| | Costau Uniongyrchol £'000 | Dibrisiant £'000 | Costau cynnal: *Marchnata, y wasg a CC* £'000 | Costau cynnal: *Cyllid a Gweinyddiaeth* £'000 | Costau cynnal: *TGCh* £'000 | Costau cynnal: *Adnoddau Dynol* £'000 | **2008-09 £'000** | 2007-08 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Cynhyrchu Incwm** | | | | | | | | |
| Costau Is-gwmni Masnachu | 2,196 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | **2,200** | 2,271 |
| Costau codi arian | 400 | 0 | 43 | 19 | 16 | 10 | **488** | 465 |
| | 2,596 | 4 | 43 | 19 | 16 | 10 | **2,688** | 2,736 |
| **Costau Gweithgareddau Elusennol** | | | | | | | | |
| Dysgu a Rhaglennu | 2,853 | 98 | 82 | 40 | 101 | 65 | **3,239** | 2,953 |
| Casgliadau ac Ymchwil | 7,699 | 464 | 77 | 135 | 244 | 163 | **8,782** | 8,497 |
| Gweithredu'r Amgueddfeydd | 11,238 | 481 | 284 | 163 | 164 | 307 | **12,637** | 12,225 |
| | 21,790 | 1,043 | 443 | 338 | 509 | 535 | **24,658** | 23,675 |
| **Costau Llywodraethu** | 520 | 0 | 136 | 8 | 16 | 10 | **690** | 672 |
| **Costau ariannu pensiynau** | 571 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **571** | (281) |
| **Cyfanswm a wariwyd** | **25,477** | **1,047** | **622** | **365** | **541** | **555** | **28,607** | 26,802 |

Cynhwysir £44,775 (£41,575 yn 2007-08) yn yr adnoddau a wariwyd i dalu'r archwilwyr allanol, £37,360 (£36,800 yn 2007-08) ar gyfer y ffi archwilio, a £7,415 (£4,775 yn 2007-08) am waith arall.

Cynhwysir £Dim (£25,000 yn 2007-08) yn yr adnoddau a wariwyd mewn perthynas â gwariant yn ymwneud â grant yr UE.

Mae'r sail ar gyfer dyrannu costau cynnal fel a ganlyn: caiff costau Marchnata, y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus eu dyrannu yn ôl canran amser; caiff costau Cyllid a Gweinyddiaeth eu dyrannu yn ôl cyfanswm incwm a gwariant; caiff costau TGCh eu dyrannu yn ôl y nifer o gyfrifiaduron ac Adnoddau Dynol yn ôl y nifer o weithwyr sy'n cyfateb i amser llawn.

Mae'r costau llywodraethu'n cynnwys cynllunio strategol, y Bwrdd a'r pwyllgorau, cysylltiadau â'r Cynulliad, archwilio mewnol ac allanol, rheoli risg a'r adroddiad a'r cyfrifon statudol.

## 7. Costau Staff

### (a) Costau Staff yn ystod y flwyddyn:

| | Cyfunol | |
|---|---|---|
| | **2008-09 £ '000** | 2007-08 £ '000 |
| Cyflogau | **15,465** | 14,889 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **1,118** | 1,078 |
| Costau pensiwn cyfredol / gorffennol | **2,562** | 2,901 |
| Costau diswyddo | **0** | 1 |
| | **19,145** | 18,869 |
| Costau ariannu pensiynau | **571** | (281) |
| | **19,716** | 18,588 |

Mae'r costau staffio'n cynnwys £1,024,000 (£1,007,000 yn 2007-08) ar gyfer yr is-gwmni masnachu.

Mae'r costau gweithredu'n cynnwys £23,000 (£24,000 yn 2007-08) ar gyfer staff asiantaeth.

### (b) Nifer gyfartalog fisol y staff cyfateb ag amser llawn:

| | Staff Parhaol | Staff Arall | **Nifer 2008-09** | Nifer 2007-08 |
|---|---|---|---|---|
| Is-gwmni Masnachu | 33 | 7 | **40** | 38 |
| Codi arian | 7 | 1 | **8** | 7 |
| Dysgu a Rhaglennu | 51 | 5 | **56** | 51 |
| Casgliadau ac Ymchwil | 138 | 10 | **148** | 149 |
| Gweithredu'r Amgueddfeydd | 267 | 23 | **290** | 297 |
| Cynhaliaeth | 68 | 3 | **71** | 67 |
| | 564 | 49 | **613** | 609 |

**(c) Manylion tâl a budd-daliadau pensiwn cyfarwyddwyr yr Amgueddfa:**

| | Cyflog 2008-09 (2007-08) £ | Cynnydd go iawn o ran pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 60 oed £ | Pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 09 a'r cyfandaliad cysylltiedig £ | CETV ar 31 Mawrth 09 £ | CETV ar 31 Mawrth 08 £ | Cynnydd go iawn yn y CETV ar ben cyfraniadau'r aelodau £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mr Michael Houlihan, Cyfarwyddwr Cyffredinol | 101,330 (98,859) | 1,420 plws 4,260 cyfandaliad | 7,550 plws 22,650 cyfandaliad | 191,640 | 155,850 | 29,710 |
| Dr Eurwyn Wiliam, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol | 73,016 (70,919) | 1,870 plws 5,610 cyfandaliad | 34,230 plws 102,690 cyfandaliad | 884,450 | 797,410 | 82,660 |
| Mr John Williams-Davies Cyfarwyddwr Sain Ffagan | 72,016 (69,919) | 1,810 plws 5,430 cyfandaliad | 32,030 plws 96,090 cyfandaliad | 800,390 | 723,100 | 72,970 |
| Mr Mark Richards Cyfarwyddwr Gweithredu | 72,016 (69,919) | 1,140 plws 3,420 cyfandaliad | 9,160 plws 27,480 cyfandaliad | 154,640 | 132,090 | 18,230 |
| Mr Michael Tooby, Cyfarwyddwr Dysgu a Rhaglennu | 72,016 (67,554) | 2,230 plws 6,690 cyfandaliad | 22,360 plws 67,080 cyfandaliad | 407,310 | 355,850 | 47,140 |
| Mr Jonathan Sheppard, Cyfarwyddwr Cyllid | 69,101 (64,884) | 1,530 plws 4,590 cyfandaliad | 11,780 plws 35,340 cyfandaliad | 261,090 | 222,120 | 34,820 |
| Mr Robin Gwyn, Cyfarwyddwr Cyfathrebu | 66,257 (62,214) | 1,190 plws 3,570 cyfandaliad | 6,760 plws 20,280 cyfandaliad | 113,660 | 91,340 | 18,340 |

Mae enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol o £101,330 (£98,859 yn 2007-08) a bonws anghyfunol ar sail perfformiad o £6,586 (£6,430 yn 2007-08).

Mae cyfarwyddwyr yr Amgueddfa i gyd yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn yr Amgueddfa.

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfartal ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf budd-daliadau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Mae'r cynnydd go iawn yn y CETV yn adlewyrchu'r cynnydd a ariannwyd gan yr Amgueddfa i bob pwrpas. Mae'n cymryd i ystyriaeth y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r gweithwyr (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio ar y farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**(d) Aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**

Nid yw aelodau'r Cyngor yn derbyn unrhyw dâl. Talwyd cyfanswm o £25,000 (£27,000 yn 2007-08) mewn costau teithio, cynhaliaeth a llety i aelodau'r Bwrdd a'r pwyllgorau. Ad-dalwyd costau i gyfanswm o 14 ymddiriedolwr.

## 8. Cyfran o’r Fenter ar y Cyd

Mae’r Amgueddfa a Chyngor Dinas a Sir Abertawe yn bartneriaid cyfartal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGGA) Cyf.,(Rhif Elusen 1090512), cwmni cyfyngedig drwy warant. Prif nod AGGA Cyf. yw sefydlu amgueddfa yn Abertawe i gadw ac arddangos (inter alia) holl gasgliadau diwydiannol a morol Amgueddfa Cymru a Dinas a Sir Abertawe er budd y cyhoedd. Pe câi AGGA Cyf. ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, mae ei erthyglau a’i memorandwm cydweithio’n nodi y caiff unrhyw eiddo sy’n eiddo i’r elusen neu sy’n cael ei breinio ynddi ei drosglwyddo i elusen neu elusennau eraill ag amcanion tebyg.

Mae cyfran yr Amgueddfa o asedau net y Fenter ar y Cyd yn cynnwys:

| | Cyfanswm Net y Symudiad mewn Cronfeydd | | Cyfran Net y Symudiad mewn Cronfeydd | |
|---|---|---|---|---|
| | **2009** | 2008 | **2009** | 2008 |
| | **£’000** | £’000 | **£’000** | £’000 |
| Adnoddau i mewn o greu incwm | **0** | 0 | **0** | 0 |
| Incwm buddsoddiad | **2** | 10 | **1** | 5 |
| Adnoddau eraill i mewn | **0** | 1 | **0** | 0 |
| **Cyfanswm yr adnoddau i mewn** | **2** | 11 | **1** | 5 |
| Costau creu incwm | **0** | 0 | **0** | 0 |
| Gwariant gweithgaredd elusennol | **239** | 253 | **120** | 126 |
| Adnoddau eraill a wariwyd | **0** | 0 | **0** | 0 |
| Costau llywodraethu | **7** | 9 | **3** | 5 |
| **Cyfanswm adnoddau a wariwyd** | **246** | 262 | **123** | 131 |
| **Newidiadau Net mewn Cronfeydd** | **(244)** | (251) | **(122)** | (126) |

| | Cyfanswm yr Asedau a’r Rhwymedigaethau | | Cyfran yr Asedau a’r Rhwymedigaethau | |
|---|---|---|---|---|
| | **2009** | 2008 | **2009** | 2008 |
| | **£’000** | £’000 | **£’000** | £’000 |
| Asedau Sefydlog | **26,225** | 26,441 | **13,113** | 13,221 |
| Asedau Cyfredol | **101** | 175 | **50** | 87 |
| Rhwymedigaethau cyn pen blwyddyn | **(6)** | (50) | **(3)** | (25) |
| Rhwymedigaethau mewn dros flwyddyn | **(48)** | (49) | **(24)** | (25) |
| **Asedau Net** | **26,272** | 26,517 | **13,136** | 13,258 |
| **Cronfeydd** | | | | |
| Cronfa gyffredinol (digyfyngiad) | **26,177** | 26,392 | **13,089** | 13,196 |
| Cronfa gyfyngedig | **95** | 125 | **47** | 62 |
| | **26,272** | 26,517 | **13,136** | 13,258 |

Ar 31 Mawrth 2009, roedd AGGA Cyf wedi contractio ar gyfer £8,268 o wariant cyfalaf oedd heb ei dynnu i lawr ar y pryd. (2008: Roedd £10,743 o wariant cyfalaf wedi’i gontractio ond heb ei dynnu i lawr).

## 9. Asedau Diriaethol Sefydlog

### (a) Amgueddfa

| | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad £'000 | Eiddo ar brydles £'000 | Peiriannau a cherbydau £'000 | Darnau gosod ac offer £'000 | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 21,393 | 64,410 | 170 | 1,356 | **87,329** |
| Ychwanegiadau blwyddyn | 153 | 492 | 164 | 135 | **944** |
| Gwarediad | 0 | 0 | (64) | 0 | **(64)** |
| Adbrisiad | (1,943) | (5,849) | 6 | 32 | **(7,754)** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | **19,603** | **59,053** | **276** | **1,523** | **80,455** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 577 | 1,031 | 86 | 255 | **1,949** |
| Tâl am y flwyddyn | 301 | 526 | 55 | 161 | **1,043** |
| Gwarediad | 0 | 0 | (58) | 0 | **(58)** |
| Adbrisiad | (79) | (140) | 2 | 9 | **(208)** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | **799** | **1,417** | **85** | **425** | **2,726** |
| **Llyfrwerth Net** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 20,816 | 63,379 | 84 | 1,101 | **85,380** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | **18,804** | **57,636** | **191** | **1,098** | **77,729** |

### (b) Cyfunol

| | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad £'000 | Eiddo ar brydles £'000 | Peiriannau a cherbydau £'000 | Darnau gosod ac offer £'000 | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 21,393 | 64,410 | 170 | 1,388 | **87,361** |
| Ychwanegiadau blwyddyn | 153 | 492 | 164 | 135 | **944** |
| Gwarediad | 0 | 0 | (64) | 0 | **(64)** |
| Adbrisiad | (1,943) | (5,849) | 6 | 32 | **(7,754)** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | **19,603** | **59,053** | **276** | **1,555** | **80,487** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 577 | 1,031 | 86 | 273 | **1,967** |
| Tâl am y flwyddyn | 301 | 526 | 55 | 165 | **1,047** |
| Gwarediad | 0 | 0 | (58) | 0 | **(58)** |
| Adbrisiad | (79) | (140) | 2 | 9 | **(208)** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | **799** | **1,417** | **85** | **447** | **2,748** |
| **Llyfrwerth Net** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 20,816 | 63,379 | 84 | 1,115 | **85,394** |
| **At 31 March 2009** | **18,804** | **57,636** | **191** | **1,108** | **77,739** |

Cafodd asedau sefydlog diriaethol yr Amgueddfa eu prisio'n broffesiynol ar 31 Mawrth 2006 gan M. A. Lawley o'r Syrfewyr Siartredig Cooke and Arkwright, yn unol ag anghenion Safonau Prisio ac FRS15 Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Roedd gwerth bob eiddo ar sail a rhagdybiaethau ar gyfer eiddo sy'n gartref i'r perchennog: yn cael eu prisio ar Bris Defnydd Cyfredol gan gymryd y rhagdybiaeth y byddai'r eiddo yn cael ei werthu fel rhan o fusnes parhaus neu drwy ddefnyddio'r dull cost dibrisiant.

Yn y cyfamser mae asedau'n cael eu hailbrisio gan ddefnyddio mynegai. Y mynegai a ddefnyddir ar gyfer tir ac adeiladau yw'r Mynegai Pris Tendr BCIS. Gwerth y mynegai oedd 232 ym mis Mawrth 2009 (255 ym Mawrth 2008).

## 10. Asedau Treftadaeth

Mae'r Asedau Treftadaeth a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

| | Celf<br>£'000 | Adeiladau Hanesyddol<br>£'000 | Arall<br>£'000 | **Cyfanswm**<br>**£'000** |
|---|---|---|---|---|
| Murluniau Eglwys Sant Teilo | - | 30 | - | **30** |
| Gwaith Adnewyddu Adeilad Treftadaeth Amgueddfa Lechi Cymru | - | 6 | - | **6** |
| The House of Fairy Tales | 5 | - | - | **5** |
| *Dathliad Dydd Gŵyl Dewi* | 48 | - | - | **48** |
| *Awr Gweddi* – Eija-Liisa Ahtila | 87 | - | - | **87** |
| *Raethro Pink* – James Turrell | 204 | - | - | **204** |
| *Y Balconi* – Betty Woodman | 26 | - | - | **26** |
| Bronze Maquette | 6 | - | - | **6** |
| Peintiadau o Nannau, Sir Feirionnydd | 45 | - | - | **45** |
| Gwaith Carreg – Claudi Casanovas | 7 | - | - | **7** |
| *Pluen Cesar* – Frank Bowling | 13 | - | - | **13** |
| Tancard Langstone | - | - | 16 | **16** |
| Celc Arian Llanfaches | - | - | 16 | **16** |
| Casgliad Cregyn | - | - | 11 | **11** |
| Gwaith Adnewyddu Tŷ'r Marsiandwr | - | 14 | - | **14** |
| Casgliad Cloddio Harry Rogers | - | - | 10 | **10** |
| Plât enw Locomotif | - | - | 10 | **10** |
| Casgliad Pryfed cymysg | - | - | 12 | **12** |
| **Cyfanswm Ychwanegiadau mewn Blwyddyn** | **441** | **50** | **75** | **566** |
| | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 6,244 | 5,630 | 768 | 12,642 |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | **6,685** | **5,680** | **843** | **13,208** |

## 11. Buddsoddiadau mewn Asedau Sefydlog

| | **Amgueddfa** | | **Cyfunol** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2009**<br>**£'000** | 2008<br>£'000 | **2009**<br>**£'000** | 2008<br>£'000 |
| Ar 1 Ebrill 2008 | **1,931** | 2,133 | **1,931** | 2,133 |
| Ychwanegiadau ar sail cost | **359** | 452 | **359** | 452 |
| Gwarediadau pris y farchnad | **(359)** | (454) | **(359)** | (454) |
| Enillion (colledion) net ar adbrisiadau | **(494)** | (200) | **(494)** | (200) |
| Gwerth y farchnad ar 31 Mawrth 2009 | **1,437** | 1,931 | **1,437** | 1,931 |

Cost hanesyddol y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2009 oedd £1,716,000 (£1,712,000 ar 31 Mawrth 2008). Mae'r portffolio'n cynnwys Buddsoddiadau Cyfunol (Unedau Buddsoddi) a awdurdodwyd gan y Bwrdd Gwarantau a Buddsoddiadau (cafodd y rhain eu prisio yn broffesiynol gan reolwyr buddsoddiadau'r Amgueddfa, Barclays Wealth) ac mae'r cyfranddaliadau (a gafodd yr Amgueddfa'n gymynrodd) wedi eu rhestru ar Farchnad Stoc Llundain.

## 12. Stoc

| | Amgueddfa | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2009** | 2008 | **2009** | 2008 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Nwyddau siop ar werth | **0** | 0 | **316** | 369 |
| Stoc cyhoeddiadau a gedwir ar wahân | **122** | 134 | **122** | 134 |
| Llai'r ddarpariaeth ar gyfer dileu stoc | **(51)** | (22) | **(51)** | (22) |
| | **71** | 112 | **387** | 481 |

## 13. Dyledwyr

| | Amgueddfa | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2009** | 2008 | **2009** | 2008 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Dyledwyr Masnachol | **107** | 224 | **237** | 282 |
| Swm dyledus gan is-gwmni masnachol | **691** | 308 | **0** | 0 |
| Benthyciad dyledus gan is-gwmni masnachol | **301** | 301 | **0** | 0 |
| Dyledwyr eraill | **428** | 565 | **361** | 496 |
| Rhagdaliadau | **207** | 185 | **220** | 203 |
| | **1,734** | 1,583 | **818** | 981 |

Ymysg y Dyledwyr eraill dyledus o fewn blwyddyn mae balans o fewn y llywodraeth o: £9,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (£42,000 yn 2007-08); £8,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (£42,000 yn 2007-08); £17,000 gan yr Amgueddfa Brydeinig (£32,000 yn 2007-08); £Dim gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (£11,000 yn 2007-08); a £300,000 gan Refeniw a Thollau ei Mawrhydi (£315,000 yn 2007-08), sydd oll yn cael eu diffinio fel cyrff eraill llywodraeth ganolog, £31,000 Dinas a Sir Abertawe (£Dim yn 2007-08) yn cael ei ddiffinio fel corff llywodraeth leol o fewn Cyfrifon y Llywodraeth.

## 14. Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn

| | Amgueddfa | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2009** | 2008 | **2009** | 2008 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Credydwyr Masnachol | **281** | 427 | **288** | 464 |
| Credydwyr a Chroniadau Eraill | **309** | 334 | **374** | 359 |
| | **590** | 761 | **662** | 823 |

Ymysg y Credydwyr a chroniadau eraill mae balans o fewn y llywodraeth gyda: Llywodraeth Cynulliad Cymru £7,000 (£12,000 yn 2007-08); Adran Busnes, Menter a Sgiliau o £Dim (£35,000 yn 2007-08); Cyngor Cefn Gwlad Cymru £9,000 (£10,000 yn 2007-08) a Chyngor Ymchwil Ffiseg Gronynnol a Seryddiaeth £7,000 (£Dim yn 2007-08), oll yn cael eu diffinio fel cyrff eraill llywodraeth ganolog o fewn Cyfrifon y Llywodraeth.

## 15. Asedau ar Brydles

| | Dodrefn Darnau Gosod ac Offer £'000 | **2008-09 £'000** | 2007-08 £'000 |
|---|---|---|---|
| Taliadau dyledus i gael asedau ar brydles: | | | |
| Prydles yn dod i ben o fewn blwyddyn | 7 | **7** | 39 |

## 16. Costau Pensiwn

Mae gan yr Amgueddfa gynllun buddion diffiniedig yn y DU, sydd wedi'i warantu gan Warant y Goron a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyflawnwyd prisiad actwarïaidd llawn ar 31 Mawrth 2006. Cafodd ei ddiweddaru ar 31 Mawrth 2009 gan actwari annibynnol cymwys gan ddefnyddio canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

Roedd y gwerthusiad actwarïaidd ar 31 Mawrth 2009 yn dangos cynnydd yn y diffyg, o £11,754,000 i £23,474,000. Roedd cyfraniad yr Amgueddfa at y Cynllun yn ystod y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2009 yn £3,026,000 (£2,887,000 hyd at 31 Mawrth 2008) ar gyfradd o 21.3% o'r Tâl Pensiynadwy.

Mae'r Amgueddfa'n disgwyl cyfrannu £3,140,000 i'r Cynllun yn 2009-10.

### (a) Symiau yn y fantolen:

| | **2009 £'000** | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Gwerth teg asedau | **48,718** | 65,195 |
| Rhwymedigaethau budd-daliadau diffinedig | **(72,192)** | (76,949) |
| **Gweddill / (diffyg)** | **(23,474)** | (11,754) |

### (b) Dadansoddiad o newidiadau yng ngwerth teg asedau:

| | **2009 £'000** | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Gwerth teg asedau i gychwyn | **65,195** | 65,972 |
| Adenillion disgwyliedig | **4,128** | 4,237 |
| Cyfraniadau Cyflogwr | **3,026** | 2,887 |
| Cyfraniadau Aelodau | **866** | 833 |
| Colledion profiad actwaraidd | **(21,258)** | (6,524) |
| Taliadau Budd-daliadau | **(3,239)** | (2,210) |
| Gwerth teg asedau i gloi | **48,718** | 65,195 |

### (c) Dadansoddiad newidiadau yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau budd-daliadau diffiniedig:

| | **2009 £'000** | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaeth budd-daliadau diffiniedig i gychwyn | **76,949** | 79,973 |
| Cost gwasanaeth cyfredol | **2,529** | 2,901 |
| Cyfraniadau aelodau | **866** | 833 |
| Cost gwasanaeth yn y gorffennol | **33** | 0 |
| Cost llog | **4,699** | 3,956 |
| Colled actwariaidd | **(9,645)** | (8,504) |
| Taliadau budd-daliadau | **(3,239)** | (2,210) |
| Rhwymedigaeth budd-daliadau diffinedig i gloi | **72,192** | 76,949 |

### (d) Symiau a godwyd i adnoddau a wariwyd:

| | 2009 | | 2008 | |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cost gwasanaeth cyfredol | **2,529** | | 2,901 | |
| Cost gwasanaeth yn y gorffennol | **33** | | 0 | |
| | | **2,562** | | 2,901 |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau | **(4,128)** | | (4,237) | |
| Cost llog | **4,699** | | 3,956 | |
| | | **571** | | (281) |
| **Cyfanswm cost i adnoddau a wariwyd** | | **3,133** | | 2,620 |

### (e) Prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o gyfanswm asedau'r cynllun:

| | 2009 | 2008 |
|---|---|---|
| Soddgyfrannau | **72.90%** | 74.80% |
| Bondiau Llog Sefydlog | **-** | 3.00% |
| Bondiu ar Sail Mynegai | **15.40%** | 21.90% |
| Bondiau corfforaethol | **11.40%** | - |
| Arall | **0.30%** | 0.30% |

### (f) Prif ragdybiaethau actwaraidd:

| | 2009 | 2008 |
|---|---|---|
| Cyfradd gostyngiad | **6.04%** | 6.10% |
| Chwyddiant | **2.75%** | 3.60% |
| Cynnydd cyflog | **4.25%** | 5.10% |
| Cynnydd taliadau pensiwn | **2.75%** | 3.60% |
| Cynnydd pensiwn gohiriedig | **2.75%** | 3.60% |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau | **5.90%** | 6.30% |
| | | |
| Rhagdybiaeth disgwyliad oes yn 65 oed | | |
| Gwrwywaidd | **85.3** | 85.3 |
| Benywaidd | **88.2** | 88.1 |
| Rhagdybiaeth disgwyliad oes yn 45 oed | | |
| Gwrywaidd | **86.3** | 86.3 |
| Benywaidd | **89.1** | 89.0 |

Mae'r gyfradd adenillion disgwyliedig a ddefnyddir ar asedau o 5.9% yn dod o adenillion disgwyliedig wedi'i bwyso ar bob un o brif gategorïau'r ased. Yn arbennig:

- Cymerwyd bod adenillion blynyddol disgwyliedig ar stoc llog sefydlog a chysylltiedig â mynegai yn 4.04%, sy'n cyfateb i gynnyrch blynyddol ar fynegai gilt 20 mlynedd FTSE ar 31 Mawrth 2009;

- Cymerwyd bod adenillion blynyddol disgwyliedig bondiau corfforaethol yn 6.04%, sy'n cyfateb i'r raddfa ostyngiad;

- Cymerwyd bod yr adenillion blynyddol disgwyliedig ar soddgyfrannau (a'r mân ddaliad mewn eiddo a buddsoddiadau eraill) yn 6.3%. Cymerwyd hyn fel 2.25% uwchben adenillion disgwyliedig ar stoc, fel mewn blynyddoedd blaenorol.

### (g) Symiau ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r pedair blynedd blaenorol:

| | **2008** | 2007 | 2006 | 2005 | 2004 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth teg asedau | **48,718** | 65,195 | 65,972 | 58,546 | 45,700 |
| Rhwymedigaethau budd-daliadau diffinedig | **(72,192)** | (76,949) | (79,973) | (68,239) | (55,053) |
| Diffyg | **(23,474)** | (11,754) | (14,001) | (9,693) | (9,353) |
| Addasiadau profiad ar asedau | **(21,258)** | (6,524) | 2,486 | 8,624 | 1,901 |
| Addasiadau profiad ar rwymedigaethau | **(121)** | (191) | (68) | 0 | 0 |

## 17. Datganiad o Gronfeydd

### (a) Symudiadau mewn Cronfeydd

| | 1 Ebrill 2008 £'000 | Adnoddau i mewn £'000 | Adnoddau a wariwyd £'000 | Newidiadau eraill o fewn y Flwyddyn £'000 | **31 Mawrth 2009 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Cyhoeddus** | | | | | |
| Cyfyngedig – Cyfalaf | 101,154 | 1,565 | (1,687) | (7,497) | **93,535** |
| Cyfyngedig – Sbesimenau | 8,135 | 1,397 | (593) | (21) | **8,918** |
| Cyfanswm Cyfyngedig | 109,289 | 2,962 | (2,280) | (7,518) | **102,453** |
| Digyfyngiad | 1,648 | 26,448 | (25,950) | (13) | **2,133** |
| Cronfa Bensiwn | (11,754) | 0 | (107) | (11,613) | **(23,474)** |
| Cyfanswm Digyfyngiad | (10,106) | 26,448 | (26,057) | (11,626) | **(21,341)** |
| **Cyfanswm Cyhoeddus** | **99,183** | **29,410** | **(28,337)** | **(19,144)** | **81,112** |
| **Cronfeydd Preifat** | | | | | |
| Cyfyngedig | 4,114 | 333 | (258) | (561) | **3,628** |
| Digyfyngiad | 509 | 121 | (12) | (70) | **548** |
| **Cyfanswm Preifat** | **4,623** | **454** | **(270)** | **(631)** | **4,176** |
| **Cyfanswm** | **103,806** | **29,864** | **(28,607)** | **(19,775)** | **85,288** |

Cofnodwyd £2,080,000 o Gronfeydd Cyhoeddus Digyfyngiad yng nghyfrifon anghyfunol yr Amgueddfa ei hun ar 31 Mawrth 2009, gyda swm o £53,000 wedi'i briodoli i Fentrau AOCC Cyf.

Mae'r Cronfeydd Cyfyngedig Preifat yn cynnwys dwy gronfa balans mawr sef: y Gronfa Gelf a Chronfa Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru.

### (b) Dadansoddiad o'r asedau net rhwng cronfeydd

| | Cronfa Gyhoeddus | | Cronfa Breifat | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfyngedig £'000 | Digyfyngiad £'000 | Cyfyngedig £'000 | Digyfyngiad £'000 | **2009 £'000** |
| Asedau Sefydlog | 101,496 | 363 | 3,175 | 486 | **105,520** |
| Asedau Cyfredol | 1,041 | 2,346 | 453 | 64 | **3,904** |
| Rhwymedigaethau Cyfredol | (84) | (576) | 0 | (2) | **(662)** |
| **Asedau Net (cyn rhwymedigaethau pensiwn)** | **102,453** | **2,133** | **3,628** | **548** | **108,762** |
| Rhwymedigaethau Pensiwn | 0 | (23,474) | 0 | 0 | **(23,474)** |
| **Asedau Net (ar ôl rhwymedigaethau pensiwn)** | **102,453** | **(21,341)** | **3,628** | **548** | **85,288** |

## 18. Cysoni'r Newidiadau mewn Adnoddau i'r Llif Arian Net o Weithgarwch Gweithredu

| | Amgueddfa | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2008-09 £'000** | 2007-08 £'000 | **2008-09 £'000** | 2007-08 £'000 |
| Adnoddau Net i mewn ar gyfer y flwyddyn ariannol | **1,145** | 3,709 | **1,135** | 3,705 |
| Cyfran o fenter ar y cyd | **122** | 126 | **122** | 126 |
| Asedau a gyfrannwyd | **(109)** | (213) | **(109)** | (213) |
| Dibrisiant | **1,043** | 934 | **1,047** | 938 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Stociau | **40** | 25 | **94** | 14 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Dyledwyr | **(205)** | 314 | **110** | 424 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Credydwyr | **(65)** | (92) | **(58)** | (42) |
| Gwaredu Asedau Sefydlog | **(29)** | 0 | **(29)** | 0 |
| Costau pensiwn blynyddol cyfredol FRS17 | **107** | (267) | **107** | (267) |
| **Arian Net i mewn o Weithgarwch Gweithredu** | **2,049** | 4,536 | **2,419** | 4,685 |

## 19. Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiadau Ariannol

| | Amgueddfa | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2008-09 £'000** | 2007-08 £'000 | **2008-09 £'000** | 2007-08 £'000 |
| Taliadau i gaffael Asedau Diriaethol Sefydlog | **(1,416)** | (4,037) | **(1,416)** | (4,037) |

## 20. Newidiadau Arian Parod

| | Amgueddfa | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2008-09 £'000** | 2007-08 £'000 | **2008-09 £'000** | 2007-08 £'000 |
| Arian Net ar 1 Ebrill 2007 | **1,351** | 852 | **1,696** | 1,048 |
| Arian Net i mewn | **633** | 499 | **1,003** | 648 |
| **Arian Parod Net ar 31 Mawrth 2008** | **1,984** | 1,351 | **2,699** | 1,696 |

## 21. Rhwymedigaethau Cyfalaf

| | **2009 £'000** | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Ar ddyddiad llunio'r fantolen roedd ymrwymiadau cyfalaf o | **477** | 687 |

Mae'r rhwymedigaethau mawr ar 31 Mawrth 2009 yn perthyn i'r gwaith o adnewyddu'r Adain Orllewinol Uchaf yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a gwaith gwella ynni (roedd y prif ymrwymiadau ar 31 Mawrth 2008 yn perthyn i waith trin dŵr a gosod lleithyddion).

## 22. Rhwymedigaethau Wrth Gefn

Pe bai Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru yn cau, mae rhwymedigaethau wrth gefn i ddiogelu siafft y pwll a'r ardaloedd cyfagos. Mae dadgomisiynu yn debygol o gostio rhyw £1 miliwn ac mae'r swm wedi ei warantu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Trwy ei chyfreithwyr, mae'r Amgueddfa yn cynnal trafodaethau mewn perthynas â nifer o hawliadau am anafiadau personol ar safleoedd yr Amgueddfa. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Amgueddfa setlo os bydd canlyniadau unrhyw drafodaethau neu ymgyfreithiad yn erbyn yr Amgueddfa. Mae'r Amgueddfa o'r farn mai £6,000 yw'r tâl mwyaf posibl a allai godi yn erbyn yr hawliadau hyn.

Benthycodd yr Amgueddfa arddangosfa Hedfan i Sharjah am gyfnod o 5 mlynedd a ddaeth i ben ar 31 Mai 2009. Ceir yr incwm a'r costau uniongyrchol cysylltiedig gyda'r benthyciad o fewn cyfrifon yr is-gwmni masnachol. Dan delerau'r benthyciad, mae gan y benthycwr yr opsiwn o brynu'r arddangosfa ar ddiwedd y cyfnod. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r benthycwr o ran y gwerthiant posibl hwn. Serch hynny, pe na bai'r arddangosfa'n cael ei gwerthu bydd costau, sy'n cael ei amcangyfrif yn £37,700, i Amgueddfa Cymru o ran paratoi'r arddangosfa i'w ddychwelyd, er bod y benthycwr i dalu'r holl gostau cludiant.

## 23. Trafodion Cyrff Cysylltiedig

Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad. Felly, ystyrir bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gorff cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn cafodd yr Amgueddfa gyllid oddi wrth y Cynulliad ar ffurf Cymhorthdal Refeniw, Cyfalaf a Grant Prynu Sbesimenau, y cyfeirir ato yn Nodyn 3.

Yn ystod y flwyddyn cafodd yr Amgueddfa drafodion materol amrywiol mewn perthynas â gweithgareddau gwasanaeth gyda chyrff eraill sy'n cael eu noddi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sef Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Yn 2008 - 09, cafodd yr Amgueddfa drafodion materol gydag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe Cyf. (AGGA Cyf.), cwmni y mae'r Amgueddfa yn bartner cyfartal ynddo gyda Dinas a Sir Abertawe. Cafodd yr Amgueddfa ad-daliad cost o £30,950 oddi wrth AGGA Cyf. Nid oedd unrhyw fantolenni dyled a chredyd gydag AGGA Cyf. ar 31 Mawrth 2009.

Mae Mr Paul E. Loveluck, y Llywydd, Mr J. Peter W. Morgan, Trysorydd a Mr Gareth Williams, Ymddiriedolwr, yn 3 o'r 7 Cyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe Cyf. y cyfeirir atynt yn Nodyn 8 o'r Cyfrifon. Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn cael tâl gan y cwmni hwn.

Talodd yr Amgueddfa £10,290 i Geldards LLP yn 2008-09. Mae Mr H.R.C. Williams, Ymddiriedolwr, yn aelod o'r LLP.

Talodd yr Amgueddfa £5,000 i Heritage in Action (HERIAN) Cyf. yn 2008-09. Roedd Mr John Williams-Davies, Cyfarwyddwr Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, yn un o Gyfarwyddwyr HERIAN. Ni chafodd unrhyw dâl oddi wrth y cwmni hwn.

## 24. Digwyddiadau ar ôl y Fantolen

Cyhoeddodd yr Amgueddfa ganlyniad ceisiadau Cynllun Diswyddo Gwirfoddol ar 1 Ebrill 2009. Bydd cost y taliadau diswyddo, sy'n dod i £721,000, yn codi yn ystod y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2010 ac yn cael eu gosod yn erbyn yr arbedion cyflog sy'n codi. Yn dilyn y diswyddiadau hyn bydd £612,000 yn fwy o straen ar Gronfa Cynllun Pensiwn yr Amgueddfa.

Awdurdododd y Swyddog Cyfrifo'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 30 Gorffennaf 2009.

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP
+ 44 (0) 29 2039 7951

**Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru**
Blaenafon, Torfaen NP4 9XP
+ 44 (0) 1495 790 311

**Amgueddfa Lechi Cymru**
Gilfach Ddu, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
+ 44 (0) 1286 870 630

**Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**
Ffordd Ystumllwynarth, Ardal Forol, Abertawe SA1 3RD
+ 44 (0) 1792 638950

**Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru**
Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB
+ 44 (0) 29 2057 3500

**Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru**
Stryd Fawr, Caerllion NP18 1AE
+ 44 (0) 1633 423 134

**Amgueddfa Wlân Cymru**
Dre-fach Felindre, Llandysul, Sir Gaerfyrddin SA44 5UP
+ 44 (0) 1559 370929

**Y Ganolfan Gasgliadau**
Nantgarw, Rhondda Cynon Taf CF15 7QT
+ 44 (0) 29 20573651